RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
19/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:
13/03/2024

# Mapio'r Gweithlu Gofal Plant a Chwarae

## Adroddiad Cam 1

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83577-783-1

Mapio'r Gweithlu Gofal Plant a Chwarae

Is-deitl: Adroddiad Cam 1

Awdur(on): Alma Economics

alma economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2024).*Mapio'r Gweithlu Gofal Plant a Chwarae, Adroddiad Cam 1.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 19/2024

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/mapior-gweithlu-gofal-plant-chwarae-yng-ngyhmru-adroddiad-cam-1

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag:

Enw: Abigail Ryan

Is-adran Tystiolaeth a Chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: research.childrenandfamilies@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o Dablau ........ 2
Rhestr o Ffigurau ........ 2
Acronymau ........ 3
1. Cyflwyniad ........ 4
2. Trosolwg o Bolisi ........ 6
3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid ........ 9
4. Canfyddiadau o'r adolygiad data ........ 19
5. Dadansoddiad o'r data presennol ........ 29
6. Casgliadau ........ 43
7. Argymhellion ar gyfer Cam Dau ........ 45
Atodiad A: Rhestr o randdeiliaid a gymerodd ran mewn cyfweliadau cwmpasu ........ 52
Atodiad B: Canllaw pwnc cyfweliadau ar gyfer cyfweliadau cwmpasu allanol ........ 53
Atodiad C: Prif ddimensiynau o ddiddordeb ar gyfer mapio data gofal plant ........ 56

## Rhestr o Dablau

Tabl 1: Nifer y lleoliadau gofal plant a chwarae, yn ôl math o leoliad ..................................30
Tabl 2: Nifer y lleoliadau gofal plant, yn ôl awdurdod lleol ..................................................30
Tabl 3: Nifer y lleoedd (uchafswm), yn ôl math o leoliad .....................................................32
Tabl 4: Nifer y lleoedd (uchafswm), yn ôl awdurdod lleol .....................................................32
Tabl 5: Lefelau cymhwyster gweithlu gwaith chwarae .........................................................37
Tabl 6: Oedran y gweithlu gwaith chwarae ........................................................................38
Tabl 7: Rhywedd yn y gweithlu .........................................................................................38
Tabl 8: Rhywedd yn y gweithlu gwaith chwarae...................................................................38
Tabl 9: Gweithlu gwaith chwarae yn ôl ethnigrwydd ............................................................39
Tabl 10: Gweithlu gwaith chwarae yn ôl statws anabledd ....................................................39
Tabl 11: Cyfradd gyfartalog cyflog yn ôl hynafedd staff ......................................................40
Tabl 12: Cyfradd gyfartalog cyflog yn ôl math o wasanaeth.................................................41
Tabl 13: Dull o fodelu galw sylfaenol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae ....................47

## Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1: Nifer y lleoliadau gofal plant a chwarae ..............................................................29
Ffigur 2: Cyfanswm nifer y lleoedd gofal plant a chwarae (uchafswm) ...............................31
Ffigur 3: Gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn ôl math o leoliad cofrestredig ...............34
Ffigur 4: Y brif iaith a ddefnyddir yn y lleoliad i ddarparu gwasanaeth ................................34
Ffigur 5: Lefel sgiliau Cymraeg staff....................................................................................35
Ffigur 6: Cymwysterau uchaf gweithiwr gofal plant ............................................................36
Ffigur 7: Cymwysterau uchaf gweithiwr chwarae ................................................................36
Ffigur 8: Cymwysterau gwarchodwr plant yn ôl lefel ..........................................................37
Ffigur 9: Staff sy’n cael mwy na’r Cyflog Byw Cenedlaethol, yn ôl math o leoliad ...............40
Ffigur 10: Swyddi gwag fel cyfran o staff a gyflogir, yn ôl math o leoliad .............................41
Ffigur 11: Prif amcanestyniadau poblogaeth SYG ar gyfer Cymru, yn ôl band oedran ........42

## Acronymau

| | |
|---|---|
| **ARWAP** | Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru |
| **AGC** | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| **CSA** | Asesiad(au) o Ddigonolrwydd Gofal Plant |
| **ECEC** | Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar |
| **GSR** | Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth |
| **LFS** | Arolwg o'r Llafurlu |
| **LLWR** | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| **NDNA** | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| **SYG** | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| **PACEY** | Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru |
| **CYBLD** | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| **SASS** | Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth |
| **GCC** | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| **SIC** | Dosbarthiad Diwydiannol Safonol |
| **SOC** | Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol |
| **WESP** | Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg |

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i ddarparu addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd da i holl blant Cymru. Yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu ar ei newydd wedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gofal plant fforddiadwy a hygyrch o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu i bob teulu yng Nghymru sydd ei angen, gyda ffocws penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.[1] Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi gweledigaeth o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn gofal plant blynyddoedd cynnar.[2] Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru (ARWAP) yn amlinellu nodau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru i wneud y sector gofal plant a chwarae yng Nghymru yn wrth-hiliol.[3] I grynhoi, ystyrir bod y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn allweddol i gyflawni'r ymrwymiadau hyn a chefnogi plant i gyrraedd eu llawn botensial.

1.1 Mae'r Cynllun Gweithlu 10 mlynedd Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar, a gyhoeddwyd yn 2017, yn amlinellu uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatblygu gweithlu amrywiol, medrus, sy'n uchel ei barch fel proffesiwn ac yn yrfa o ddewis, ac sy'n cael ei gydnabod am y rôl hanfodol y mae'n ei chwarae wrth gefnogi datblygiad plant.[4] Mae'r cynllun hefyd yn amlygu'r heriau recriwtio a chadw y mae'r sector yn eu hwynebu ac yn nodi'r camau gweithredu sy'n ymateb i'r angen i fuddsoddi mewn meithrin gallu.

1.2 Er mwyn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector gofal plant a gwaith chwarae, mae'n hanfodol cael darlun cywir o faint a chyfansoddiad y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae presennol. Yn yr un modd, bydd deall maint a natur y galw yn y dyfodol am ddarpariaeth gofal plant a chwarae yn hanfodol i sicrhau y gall y sector ragweld a chwrdd ag anghenion y dyfodol.

## Pwrpas yr adroddiad hwn

1.3 Cafodd Alma Economics ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i wneud gwaith mapio o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru a fydd yn cynnwys

[1] Rhaglen lywodraethu: diweddariad. Gweler: Rhaglen lywodraethu: diweddariad | LLYW.CYMRU
[2] Cymraeg 2050: strategaeth iaith Gymraeg. Gweler: Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU
[3] Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru. Gweler: Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | LLYW.CYMRU
[4] Cynllun gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar. Gweler: Gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar cynllun gweithlu | LLYW.CYMRU

dadansoddiad o gyfansoddiad gweithlu'r sector yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r gwaith yn ceisio caniatáu i lunwyr polisi (i) ddeall cyfansoddiad y gweithlu presennol yn well, (ii) cryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, (iii) mynd i'r afael ag anghenion lleol darparwyr a'u cefnogi i ddatblygu cynllun cynhwysfawr i gynyddu capasiti, a (iv) mynd i'r afael â phryderon ynghylch diffyg cynrychiolaeth gyfartal yng ngweithlu'r sector.

1.4 Rhennir y gwaith yn ddau gam. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganlyniadau cam cyntaf y gwaith, sydd wedi nodi a dadansoddi data a thystiolaeth sy'n bodoli eisoes a all gefnogi modelu ac amcanestyniadau'r sector gofal plant a gwaith chwarae a gynhelir yn ail gam y gwaith. Yn seiliedig ar ganfyddiadau Cam 1 yr ymchwil hwn, mae'r adroddiad yn darparu argymhellion ar gyfer Cam 2, a fydd yn cynnwys dadansoddiad o ddata sylfaenol a gasglwyd gan randdeiliaid allweddol yn y diwydiant, a mapio ac amcanestyniadau o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae presennol ac i'r dyfodol.

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.5 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Adran 2** yn amlinellu'r dirwedd bolisi gyfredol ac yn trafod yn gryno flaenoriaethau strategol yn y sector gofal plant a chwarae.
- Mae **Adran 3** yn crynhoi canfyddiadau'r cyfweliadau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd i lywio cyfeiriad y prosiect hwn, yn ogystal â nodi a chael mynediad at ffynonellau data allweddol.
- Mae **Adran 4** yn manylu ar allbynnau'r adolygiad data, gan nodi data a thystiolaeth i gefnogi'r dadansoddiad mapio a'r amcanestyniadau sydd i'w cynnal yng Ngham 2, gan amlygu unrhyw fylchau data arwyddocaol.
- Mae **Adran 5** yn darparu ystadegau a metrigau allweddol ar gyfer setiau data a nodwyd ac a gyrchwyd fel rhan o'r ymarfer adolygu data.
- Mae **Adran 6** yn cloi canfyddiadau Cam 1, gan roi sylwadau ar fylchau data allweddol.
- Mae **Adran 7** yn darparu argymhellion i Gam 2, gan fanylu ar y dull gweithredu ar gyfer y gweithgareddau gwaith maes a'r fanyleb fodelu.

## 2. Trosolwg o Bolisi

2.1 Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r blaenoriaethau polisi cyfredol ar gyfer y sector gofal plant a chwarae yng Nghymru. Gan gydnabod pwysigrwydd profiadau plentyndod cynnar, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio catalog o bolisïau, strategaethau a rhaglenni i hyrwyddo darpariaeth gofal plant a chwarae o ansawdd uchel. Nod yr adran hon yw rhoi trosolwg byr o raglenni craidd sy'n effeithio ar weithlu'r sector. Fodd bynnag, nid yw'n anelu at drafod yr holl bolisïau perthnasol yn llawn ac yn hytrach mae'n anelu at leoli canfyddiadau diweddarach o ymgysylltu â rhanddeiliaid a mapio data yn y cyd-destun polisi.

2.2 Mae'r Rhaglen Lywodraethu[5] a Chynllun Plant a Phobl Ifanc[6] yn nodi blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i alluogi pob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd trwy ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ragorol. Ailddatganodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i ehangu gwasanaethau gofal plant a blynyddoedd cynnar i fwy o deuluoedd yng Nghymru rhwng 2021 a 2026. Mae ymrwymiadau allweddol yn cynnwys ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i bob plentyn dwy oed, ehangu'r Cynnig Gofal Plant i rieni mewn addysg a hyfforddiant, buddsoddi ymhellach yn y rhaglen Dechrau'n Deg, ac ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg i gefnogi cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 o dan Cymraeg 2050.

2.3 Cynnig Gofal Plant Cymru:[7] Mae Cynnig Gofal Plant Cymru Llywodraeth Cymru yn darparu hyd at 30 awr o ofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar i rieni cymwys i blant tair a phedair oed am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Bu'r Cynnig ar gael ledled Cymru gyfan ers mis Ebrill 2019. Mae'n cael ei ddarparu drwy rwydwaith eang o ddarparwyr cofrestredig, gan gynnwys meithrinfeydd dydd, cylchoedd chwarae, a gwarchodwyr plant, ymhlith eraill. Bydd buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y Cynnig Gofal Plant yn gweld cynnydd nodedig o £75 miliwn yn 2021-2022 i £95 miliwn y flwyddyn erbyn 2024-2025 yn ôl y gyllideb ddrafft.[8]

2.4 Darpariaeth Dechrau'n Deg:[9] Dechrau'n Deg yw rhaglen dargededig y Blynyddoedd Cynnar gan Lywodraeth Cymru i deuluoedd â phlant o dan bedair oed sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Nod Dechrau'n Deg yw gwneud

---

[5] Y Rhaglen Lywodraethu. Gweler: Rhaglen lywodraethu | LLYW.CYMRU
[6] Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Gweler: Cynllun Plant a Phobl Ifanc [HTML] | LLYW.CYMRU
[7] Cynnig Gofal Plant Cymru. Gweler: Cynnig Gofal Plant Cymru | Help Gyda Chostau Gofal Plant yng Nghymru | LLYW.CYMRU
[8] Cyllideb ddrafft. Gweler: Cyllideb Ddrafft 2023 i 2024 | LLYW.CYMRU
[9] Darpariaeth Dechrau'n Deg. Gweler: Dechrau'n Deg: canllawiau'r rhaglen iechyd | LLYW.CYMRU

gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant drwy liniaru effaith tlodi, sy’n gysylltiedig â chanlyniadau bywyd gwael yn ystod plentyndod cynnar, gan gynnwys canlyniadau iechyd. Mae'r Rhaglen yn cynnwys pedair elfen: gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel wedi'i ariannu ar gyfer plant dwy i dair oed; gwell cefnogaeth gan ymwelwyr iechyd; mynediad at gymorth rhianta; a chefnogaeth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu. Dechreuodd y gwaith o ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar i bob plentyn dwy oed ym mis Medi 2022. Roedd cam cyntaf yr ehangu yn cynnwys pedair elfen Dechrau'n Deg a chafodd ei gwblhau ym mis Mehefin 2023. Cychwynnodd yr ail gam, sy’n canolbwyntio ar ehangu'r elfen gofal plant Dechrau’n Deg, ym mis Ebrill 2023 ac yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, gyda chynlluniau i fuddsoddi £11.65 miliwn yn 2023-24 a £14.3 miliwn arall yn 2024-25.

2.5 Cymraeg 2050:[10] Mae’r strategaeth hirdymor hon yn ceisio ehangu’r defnydd o’r Gymraeg mewn gofal plant blynyddoedd cynnar, gan sicrhau bod plant yn gallu datblygu sgiliau Cymraeg yn gynnar, gyda’r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Cymraeg 2050 yn cynnwys sawl elfen sy’n cryfhau’r defnydd o Cymraeg. Yn bwysicaf oll i blant, mae Cymraeg 2050 yn darparu nifer cynyddol o leoliadau cyfrwng Cymraeg ac yn cefnogi ymarferwyr i wella eu sgiliau Cymraeg eu hunain. Yn dilyn nodau Cymraeg 2050, dylid cefnogi plant dan bump oed ar eu taith i ruglder Cymraeg, gan ddechrau gyda chyswllt digonol yn ystod y blynyddoedd cynnar.

2.6 Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar:[11] Gan gydnabod rôl hanfodol ymarferwyr gofal plant a gweithwyr chwarae wrth gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru, fe gyhoeddwyd strategaeth 10 mlynedd gynhwysfawr yn 2017. Roedd y cynllun yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau recriwtio a chadw a wynebir gan y sector. Roedd hyn yn cynnwys (i) denu recriwtiaid newydd o ansawdd uchel trwy hyrwyddo gyrfa mewn gofal plant a gwneud cyngor gyrfa perthnasol ar gael yn hawdd, tra hefyd yn treialu’r rhaglen ‘Childcare Works’, gan gynnig cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith tymor byr i’r rhai sy’n dymuno dechrau gweithio ym maes gofal plant; (ii) codi safonau a sgiliau drwy adolygu safonau hyfforddiant a chymwysterau, a chyflwyno cymwysterau newydd i weithwyr yn y

[10] Cymraeg 2050. Gweler: [Cymraeg 2050: cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2022 i 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU]
[11] Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar. Gweler: [Gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar cynllun gweithlu | LLYW.CYMRU]

sector; a (iii) buddsoddi mewn datblygu capasiti a gallu trwy bolisïau megis cyflwyno prentisiaethau newydd.

2.7 Safonau Gofynnol Cenedlaethol:[12] Mae'n ofynnol i leoliadau gofal plant a chwarae yng Nghymru gadw at set gynhwysfawr o safonau fel rhan o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol[13] sy'n berthnasol i'r sector. Mae hyn yn cynnwys gofynion cofrestru ar gyfer amrywiaeth o leoliadau, rheolau diogelu, cymarebau staffio, cymwysterau a hyfforddiant angenrheidiol, yn ogystal ag yswiriant ansawdd ac arolygiadau. [14]

2.8 Cynnydd ar gyfer Llwyddiant:[15] Prif bwrpas y rhaglen hon yw cynyddu ansawdd y ddarpariaeth a gyrchir o fewn y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae trwy ariannu ymarferwyr gofal plant a gwaith chwarae presennol i ymgymryd â chymwysterau gofal plant a chwarae cydnabyddedig. Rhwng 2019 a 2023, mae Cynnydd ar gyfer Llwyddiant wedi ariannu fframweithiau prentisiaeth peilot mewn Gofal Plant, Dysgu a Datblygu Chwarae (CCPLD) a Gwaith Chwarae i ymarferwyr presennol sy'n gweithio rhwng 10 ac 16 awr yr wythnos ledled Cymru.

2.9 Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair:[16] Yn flaenorol, nododd Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn 2013 ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi darpariaeth y blynyddoedd cynnar er mwyn darparu'r dechrau gorau posibl ar gyfer dyfodol disglair i bob plentyn yng Nghymru. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau sylweddol tuag at wella maint ac ansawdd y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant, cefnogi lleoliadau cyfrwng Cymraeg, meithrin amrywiaeth yn y gweithlu, a meithrin gallu yn y sector. Ym mhapur strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb 2017, nodwyd darpariaeth y blynyddoedd cynnar fel un o bum prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

---

[12] Canllawiau Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Gweler: Safonau gofynnol cenedlaethol a chanllawiau: gofal plant a reoleiddir | LLYW.CYMRU

[13] Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Gweler: Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddio | LLYW.CYMRU

[14] Roedd yr ymgynghoriad ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn dal i fynd rhagddo tra bod gwaith maes i'r adroddiad hwn yn cael ei wneud. Adroddir barn y rhanddeiliaid yn seiliedig ar wybodaeth a rannwyd ar adeg y cyfweliad (Mawrth-Ebrill 2023).

[15] Cynnydd ar gyfer Llwyddiant. Gweler: Cynnydd ar gyfer Llwyddiant | Busnes Cymru Porth Sgiliau (gov.wales)

[16] Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair. Gweler: Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (ioe.ac.uk)

# 3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid

### Methodoleg

3.1 Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid mewn dau gam, yn gyntaf gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac wedi hynny gyda chynrychiolwyr rhanddeiliaid allanol megis grwpiau ymbarél a chyrff cyhoeddus eraill sy'n ganolog i'r sector gofal plant a gwaith chwarae. Cynhaliwyd cyfanswm o chwe chyfweliad gydag wyth o swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, cynhaliwyd naw cyfweliad gyda phedwar ar ddeg o gynrychiolwyr rhanddeiliaid allanol. Cwblhawyd y cyfweliadau rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023 yn Gymraeg a Saesneg a chasglwyd yr holl ddata yn rhithwir. Ceir trosolwg o feysydd gwaith swyddogion Llywodraeth Cymru a gymerodd ran yn ogystal â rhestr o sefydliadau rhanddeiliaid allanol a gymerodd ran yn Atodiad A.

3.2 Roedd y cyfweliadau cwmpasu yn defnyddio dull lled-strwythuredig a oedd yn cwmpasu meysydd polisi gofal plant a chwarae, cyfleoedd a heriau presennol, ffynonellau data presennol ac yn y dyfodol, yn ogystal â thrafodaethau cylch gwaith penodol a lle i drafod unrhyw agweddau ychwanegol yr oedd cyfranogwyr yn credu oedd yn berthnasol i'r ymchwil. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg o'r cyfweliadau cwmpasu. Caiff adroddiadau ac argymhellion gan swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol eu trafod ar y cyd, oni nodir yn wahanol.

### Canfyddiadau

#### *Llwyddiannau diweddar yn y sector*

3.3 Amlinellodd y cyfranogwyr eu barn bod llwyddiannau diweddar yn y sector gofal plant a gwaith chwarae wedi'u cyflawni wrth broffesiynoli'r sector ymhellach, yn enwedig drwy gymwysterau cyson a gofynion ffurfiol. Nodwyd bod rôl Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) yn y broses hon yn ddefnyddiol wrth ddatblygu'r gwahanol lefelau o gymwysterau. Nodwyd ymhellach fod sicrhau cydnabyddiaeth gynyddol i bwysigrwydd gofal plant a gwaith chwarae fel maes polisi yn llwyddiant. Esboniodd y cyfranogwyr eu barn bod pandemig Covid-19 yn arbennig wedi arwain at ymwybyddiaeth gynyddol o ddatblygiad plant y blynyddoedd cynnar, y mae gofal plant a chwarae yn ganolog iddo. Yn ôl y cyfranogwyr, ffactor nodedig a gyfrannodd at y datblygiadau cadarnhaol hyn oedd ffurfio partneriaeth Cwlwm rhwng pum sefydliad rhanddeiliaid allweddol (Clybiau Plant Cymru, Blynyddoedd Cynnar

Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru, a'r Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) Cymru). Deallwyd bod y bartneriaeth hon yn gyfrwng gwerthfawr i eiriol dros anghenion y sector ac ymgysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru.

3.4 Yn gyffredinol, roedd gallu'r sector i ymdopi â phandemig Covid-19, ac adfer ohono, yn cael ei ystyried yn llwyddiant mawr, gan ddangos gwytnwch y sector. Eglurodd y cyfranogwyr hefyd fod darparu gofal plant a lleoliadau chwarae o ansawdd uchel i blant, yn y cyfnod adferiad pandemig parhaus, yn hanfodol ar gyfer eu datblygiad cymdeithasol a gwybyddol, ac felly'n tanlinellu pwysigrwydd cynnal maint ac ehangder y sector. Eglurodd yr ymatebwyr ymhellach fod y sector ar hyn o bryd yn gallu ymdopi â galw ar draws gwahanol fathau o leoliadau, ond y gallai lleoedd neu restrau aros amrywio'n fawr yn ôl lleoliad.

***Barn ar flaenoriaethau polisi cyfredol***

3.5 Yn ystod y cyfweliadau cwmpasu, bu'r cyfranogwyr hefyd yn trafod eu barn ar flaenoriaethau polisi cyfredol sy'n uniongyrchol berthnasol i weithlu'r sector. Yn unol â hynny, nid nod yr adran hon yw rhoi trosolwg cynhwysfawr o bolisïau cyfredol, ond yn hytrach canolbwyntio ar farn a blaenoriaethau rhanddeiliaid. Gan amlaf, amlinellwyd pwysigrwydd gweithlu cymwys iawn. Pwysleisiodd y cyfranogwyr rôl hanfodol gweithlu proffesiynol a dadleuwyd bod cyflwyno cymwysterau newydd lefelau dau i bump ers 2019 wedi bod yn werthfawr. Er bod y cymwysterau sydd eu hangen i weithio ym maes gofal plant yn cael eu gosod gan Ofal Cymdeithasol Cymru,[17] nododd y cyfranogwyr hyfforddiant ychwanegol a ddarparwyd neu a ddyluniwyd gan sefydliadau eraill fel rhywbeth defnyddiol, megis y Mudiad Meithrin. Enghreifftiau gwerthfawr a nodwyd gan gyfranogwyr oedd rhaglen *Camau* yn ogystal â llenyddiaeth bellach ac adnoddau dwyieithog ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar a ddarparwyd gan y Mudiad Meithrin. Nododd rhanddeiliaid allanol hefyd y byddai angen i staff ddal swydd o 16 awr yr wythnos o leiaf er mwyn cyflawni cymhwyster penodol. Fodd bynnag, dadleuodd rhai cyfranogwyr efallai na fyddai'r gofyniad hwn yn bosibl i rai gweithwyr chwarae ac y gallai felly atal eu gallu i ennill y cymwysterau perthnasol.[18]

---

[17] Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru. Gweler: [Fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal… | Gofal Cymdeithasol Cymru]

[18] Roedd y cynnig hwn yn rhan o gynllun peilot diweddar. Am fanylion gweler 2.7 uchod.

3.6 Roedd ymatebwyr yn gweld ail faes ffocws yn ehangiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws mathau o leoliadau, a gafodd ei ganmol fel rhywbeth sy'n ganolog i bolisi Llywodraeth Cymru. Teimlai rhanddeiliaid allanol ei bod yn bwysig cynnig hyblygrwydd i leoliadau drosglwyddo o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg i ddarpariaeth ddwyieithog. Ymhellach, pwysleisiwyd yn ystod cyfweliadau bod cynnig hyfforddiant ychwanegol ar sgiliau proffesiynol perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg a chefnogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau'n hyderus yn ddefnyddiol. Un elfen allweddol y nodwyd oedd yn bwysig ar gyfer ehangu cyfrwng Cymraeg llwyddiannus yw strategaeth hirdymor Cymraeg 2050. Mae'r Mudiad Meithrin yn chwarae rhan arwyddocaol wrth gyflwyno'r elfen blynyddoedd cynnar o'r cynllun strategol i hybu sgiliau iaith Gymraeg. Serch hynny, amlinellodd rhanddeiliaid allanol heriau hefyd o ran mynediad at gyllid, yn enwedig mewn rhannau di-Gymraeg o Gymru. Teimlwyd bod strwythurau ariannu anghyson ar draws awdurdodau lleol yn heriol, ac argymhellwyd dull gweithredu cyson er mwyn cefnogi ymhellach y cynnydd yn y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

3.7 Maes polisi allweddol arall a nodwyd gan gyfranogwyr oedd darparu ac ehangu Dechrau'n Deg. Yn gyffredinol, nodwyd hon fel rhaglen lwyddiannus hyd yma, yn enwedig o ran caniatáu i rieni gael mynediad i ofal plant nad oeddent wedi gallu ei fforddio cyn hyn. O ystyried mai dim ond teuluoedd sy'n byw mewn codau post penodol ar hyn o bryd sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg, dywedodd cyfranogwyr y byddai unrhyw ehangu neu gymhwyso'r rhaglen yn gyffredinol yn effeithio'n sylweddol ar y gweithlu. Dadleuodd cyfranogwyr y byddai hyn yn effeithio ar gyfanswm lefel y galw yn ogystal â siapio'r mathau o gymwysterau sydd eu hangen mewn lleoliadau. Roedd cyfranogwyr y cyfweliadau yn gweld mai lefel dau yw'r cymhwyster isaf ar hyn o bryd, gan nodi yn y cyfamser bod lefel tri yn angenrheidiol i arwain lleoliad. Er mwyn darparu Dechrau'n Deg, esboniodd y cyfranogwyr y byddai'n ofynnol i staff feddu ar lefel tri a lefel pump, yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid allanol yn ofni y byddai ehangu Dechrau'n Deg yn cyfyngu ar ddewisiadau lleoliadau o ran darparu lleoedd o'r fath ai peidio; efallai mai darparu Dechrau'n Deg yw'r unig ddewis ymarferol i lenwi'r lleoedd sydd ar gael, gan y gallai rhieni fel arall ddewis lleoliadau eraill lle byddai lle eu plentyn yn cael ei ddarparu o dan Dechrau'n Deg. Serch hynny, mae rhanddeiliaid allanol yn rhybuddio y gallai cyfraddau ariannu lleoedd Dechrau'n Deg fod yn is na chyfraddau a delir yn breifat ar draws awdurdodau lleol, ac yn aml mae'n rhy isel i dalu'r costau fesul lle, gan arwain at golled ariannol i'r lleoliad. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y

gallai Cynnig Gofal Plant Cymru, sy’n darparu darpariaeth ehangach o ofal plant wedi’i ariannu am 30 awr ar gyfer plant tair i bedair oed, yn ogystal â’r strategaeth ECEC ar gyfer lleoliadau ac ysgolion, ddarparu dull mwy addas o weithredu ar gyfer y gweithlu a theuluoedd.

3.8 Maes polisi terfynol a nodwyd yn aml trwy gydol y cyfweliadau cwmpasu oedd pwysigrwydd Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru. Er bod rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn pwysleisio pwysigrwydd gweithlu mwy amrywiol er mwyn ceisio cynrychioli’r boblogaeth ehangach yn well, yn ymarferol, teimlwyd bod hyn yn heriol iawn, yn enwedig o ran recriwtio. Eglurodd yr ymatebwyr mai ychydig iawn o ddata sy'n bodoli ar amrywiaeth yn y gweithlu, yn enwedig ynghylch nodweddion gwarchodedig aelodau staff.

***Heriau sy’n wynebu’r sector***

3.9 Bu'r ymatebwyr yn trafod yn helaeth yr heriau sy'n wynebu'r sector ar hyn o bryd a sut yr effeithiodd hyn ar ddarparu gwasanaethau ar lawr gwlad. Roedd y pryder a drafodwyd amlaf yn ymwneud â chostau ariannol rhedeg lleoliad. Nodwyd problemau penodol yn ymwneud â chyflogau staff, biliau ynni cynyddol, a rhent cynyddol; yn y cyfamser, ni allai costau o'r fath gael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i rieni, a allai hefyd fod mewn trafferthion ariannol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid allanol fod cyllid cyfalaf yn ddigonol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dywedwyd hefyd, yn eu barn hwy, fod refeniw annigonol parhaus i'r dyfodol yn peri pryder i leoliadau. Awgrymwyd ymhellach nad oedd cyllid y llywodraeth fesul lle yn ddigonol i dalu costau ac, o ystyried dibyniaeth y sector ar gyllid y llywodraeth, byddai hyn yn debygol o orfodi darparwyr i dorri treuliau mewn mannau eraill neu adael y sector. Nodwyd bod eithrio lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae rhag ardrethi busnes yn arbennig o ddefnyddiol.

3.10 Ymhellach, mynegodd y cyfranogwyr bryderon ynghylch hyfywedd lleoliadau oherwydd y cyfraddau a delir fesul lle a ariennir (lleoedd Dechrau’n Deg a Chynnig Gofal Plant Cymru), gan egluro y gallai cyfraddau o’r fath fod yn annigonol i dalu costau’r lleoliad.[19] Yn ogystal, esboniodd y cyfranogwyr y gall rhieni fod naill ai'n amharod neu fethu â fforddio talu ffioedd atodol yn breifat. Trafodwyd ehangu Dechrau’n Deg yn benodol, a theimlwyd y gallai darparwyr llai gael eu rhoi dan anfantais bellach gan y broses dendro a ddefnyddir i ddewis creu lleoliad Dechrau’n

[19] Mae awdurdodau lleol yn comisiynu darpariaeth gofal plant Dechrau’n Deg ac yn pennu’r cyfraddau a delir fesul lle a ariennir ar gyfer Dechrau’n Deg yn eu hardal leol.

Deg. Teimlai rhanddeiliaid y gallai hyn effeithio’n arbennig ar warchodwyr plant, y deallwyd nad oeddent yn darparu gwasanaethau Dechrau’n Deg ar hyn o bryd. Disgrifiwyd agweddau eraill sy’n effeithio ar warchodwyr plant fel ehangu gofal plant wedi’i ariannu i blant dwy oed drwy Dechrau’n Deg yn y dyfodol, yn ogystal ag amseroedd hwy gartref i rieni ar ôl i blentyn gael ei eni. Rhybuddiodd rhanddeiliaid allanol fod hyn yn lleihau’r ystod oedran y gall gwarchodwyr plant gynnig darpariaeth addas iddi.

3.11 Ail bryder a adroddwyd gan gyfranogwyr oedd heriau recriwtio a chadw yn y sectorau gofal plant a gwaith chwarae. Disgrifiwyd union ofynion cymwysterau fel rhai pwysig ond hefyd fel rhwystr rhag mynediad i'r sector. O ystyried yr amser sydd ei angen i ennill y cymwysterau i gael mynediad i’r gweithlu fel aelod cymwysedig o staff (a nodwyd sy’n cymryd 18 mis i’w gwblhau), dywedir bod hyn yn arwain at oedi cyn recriwtio staff cymwysedig yn yr hyn sydd eisoes yn “weithlu o natur hynod o fyrarhosol” (dyfyniad o gyfweliad). Gwelwyd bod gwella recriwtio a chadw yn arbennig o heriol mewn perthynas â staff sy’n siarad Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd lle siaredir llai o Gymraeg. Mae un cynnig amgen gan randdeiliaid yn cynnwys “gweithio tuag at gymwysterau” tra'n dal swydd mewn lleoliad, yn hytrach na mynnu bod cymhwyster wedi’i gwblhau yn rhagofyniad i gyfrif fel aelod cymwys o staff.[20] Yn ôl cyfranogwyr, mae hyn yn lleddfu rhywfaint o bwysau ar recriwtio gan y gallai aelodau staff sydd yn y broses o gymhwyso gael eu cyfrif yn y gymhareb oedolyn-plentyn.

3.12 Ffactor arall sy’n arwain at ymadawiadau cynnar o’r gweithlu, yn ôl cyfranogwyr, yw’r diffyg rhagolygon gyrfa tymor hwy yn y sector a chyflog isel. Dywedodd rhanddeiliaid allanol fod ymdrechion yn cael eu gwneud i hwyluso’r symud rhwng sectorau cysylltiedig (fel ysgolion a sectorau eraill sy’n ymwneud â phlant) i leihau rhwystrau i fynediad a denu staff ychwanegol. Fodd bynnag, gallai hyn arwain at effaith hollol groes, gyda mwy o’r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn gadael y sector i weithio mewn sectorau cyfagos. Gallai cyflog uwch, llai o gyfrifoldeb, ychydig o gymwysterau angenrheidiol, ac oriau gwaith cyfforddus mewn sectorau eraill fel manwerthu fod yn gymhelliad pellach i'r gweithlu adael y sector.

[20] Yn ddiweddar cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy’n ystyried y cynnig hwn. Diweddarwyd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddio ym mis Mai 2023 ac yn awr maent yn caniatáu i gyfran o staff sy'n gweithio tuag at gymhwyster gael ei chynnwys yn y cymarebau cymwysterau staff. Mae hyn hefyd yn wir am ehangu Dechrau'n Deg.

Awgrymodd y cyfranogwyr y dylid cyfartalu cyflog yn y sector gofal plant a gwaith chwarae â lleoliadau addysg statudol i wella cadw’r gweithlu.

3.13 Fel trydydd pryder mawr, bu cyfranogwyr yn trafod newidiadau yn strwythurau galw ar y sector. Gan ddyfynnu rhesymau fel pandemig Covid-19, patrymau gwaith a thechnoleg sy'n newid, yn ogystal â chostau uchel gofal plant, ystyriwyd bod rhieni’n fwy tebygol o gadw plant gartref am gyfnod hwy – i ddechrau, cyn eu hanfon i unrhyw leoliad am y tro cyntaf yn ystod y blynyddoedd cynnar, neu drwy beidio â defnyddio clybiau ar ôl ysgol neu gynigion tebyg eraill mwyach. Pwysleisiodd y cyfranogwyr fod darparwyr chwarae a gwarchodwyr plant yn arbennig wedi cael eu heffeithio gan newidiadau yn y sector dros y blynyddoedd diwethaf a bod nifer y lleoliadau cofrestredig wedi gostwng yn sylweddol. Yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gall y dirywiad hwn arwain at ganlyniadau andwyol, o ystyried y dwysedd poblogaeth isel a diffyg arbedion maint ar gyfer darpariaeth gofal plant a gwaith chwarae. Pwysleisiodd y cyfranogwyr y gallai hyn arwain at fylchau yn y ddarpariaeth sy’n effeithio’n anghymesur ar y boblogaeth wledig ac yn cyfrannu at ymyleiddio economaidd-gymdeithasol.

3.14 Amlinellodd y cyfranogwyr hefyd eu pryderon ynghylch gallu’r sector i ymdopi pe bai darpariaeth ehangach neu ddarpariaeth gyffredinol o ofal plant a ariennir yn cael ei chyflwyno. Cyfeiriodd rhanddeiliaid allanol at amcangyfrifon a phrofiad o leoliadau eu haelodau sy’n dangos bod y sector yn gallu ymdopi’n ddigonol pan fo 50 i 60 y cant o leoedd cymwys yn cael eu llenwi. Fodd bynnag, pe bai cynnig cyffredinol yn cynyddu’r gyfradd hon i 80 i 85 y cant, byddai’r gweithlu’n debygol o gael trafferth ymdopi, yn ôl y rhanddeiliaid a gyfwelwyd.

3.15 Roedd y pedwerydd pryder a drafodwyd amlaf ar draws cyfweliadau cwmpasu mewnol ac allanol yn amlinellu’r heriau sy’n gysylltiedig â recriwtio ac annog gweithlu mwy amrywiol – yn enwedig o ran nodweddion gwarchodedig (e.e. rhywedd, ethnigrwydd, anabledd, crefydd, oedran).

### *Ffynonellau data*

3.16 Gofynnwyd i’r cyfranogwyr a oedd ganddynt ddata, neu a oeddent yn ymwybodol o unrhyw ddata a fyddai’n cefnogi’r ymchwil hwn. Gallai hyn gynnwys er enghraifft data sy'n ymwneud â'u haelodau neu o arolygon y maent wedi'u cynnal. Trafodwyd y ffynonellau data canlynol; fodd bynnag, mae'r broses ar gyfer cael mynediad at rai ffynonellau data yn dal i fynd rhagddi.

- **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd - NDNA**: Wedi cynnal arolwg costau byw diweddar gyda lleoliadau; ar ben hynny, mae NDNA yn casglu data trwy arolwg busnes blynyddol.
- **Chwarae Cymru**: Lluniwyd arolwg ac adroddiad gweithlu 2021.
- **Clybiau Plant Cymru Kids' Club**: Mae'r sefydliad yn cynnal arolwg clybiau; mae hwn yn gofyn cwestiynau ar faterion megis swyddi gwag neu broblemau recriwtio. At hynny, maent yn cynnal arolwg rhieni/gofalwyr.
- **Blynyddoedd Cynnar Cymru**: Mae'r sefydliad yn cadw rhywfaint o ddata ar ei aelodaeth, mathau o ddarpariaeth sydd gan ei aelodau a'u ffynonellau cyllid, yn ogystal â chasglu dangosyddion bras ar gyflog. Fodd bynnag, nodir bod gwahanol ffyrdd o gyfrif niferoedd aelodaeth yn cael eu defnyddio, yn hytrach na chofrestr AGC.
- **Mudiad Meithrin**: Mae'r sefydliad yn monitro ac yn adrodd ar nifer y plant a'r staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys archwiliadau o gymwysterau staff, sgiliau iaith, a demograffeg staff sy'n gweithio gyda phlant o dan oedran ysgol gynradd. Mae hyn yn sail i'r adroddiad *Grym ein gweithlu*.[21] Ymhellach, mae'r Mudiad Meithrin yn cynnal arolwg blynyddol o aelodau a grwpiau cysylltiedig.
- **Gofal Cymdeithasol Cymru - GCC**: Mae'r corff yn cadw rhywfaint o ddata ar niferoedd sy'n cwblhau prentisiaethau yn y sector gofal plant. Nid yw eu cylch gorchwyl yn rhychwantu'r sector gwaith chwarae. Mae cymwysterau yn dal i fod yn y broses o drawsnewid ers 2018; felly, data cyfyngedig sydd ar gael ar y naill garfan neu'r llall o ddysgwyr.
- **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar - PACEY**: Nid yw'r sefydliad yn cyhoeddi ystadegau aelodaeth ac er eu bod wedi arfer cynnal arolwg blynyddol blaenorol, nid yw hyn wedi parhau yn y blynyddoedd diwethaf.
- **Arolygiaeth Gofal Cymru – AGC**: Yn eu rôl o gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal plant a chwarae, mae AGC yn cadw data helaeth ar ffurf y gofrestr swyddogol. At hynny, mae'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) yn arolwg a gynhelir gan AGC gyda'r don ddiweddaraf yn 2023. I gael rhagor o fanylion am y gofrestr a data SASS, gweler adran 4 isod.

[21] Adroddiad Grym ein Gweithlu. Gweler: Grym ein Gweithlu Saesneg (meithrin.cymru)

3.17 Ychydig iawn o gyfranogwyr a oedd yn ymwybodol o unrhyw waith casglu data parhaus newydd (e.e. arolygon newydd eu cyflwyno neu gasglu data), ac ni adroddwyd am gynlluniau i gynnal unrhyw rai. Roedd nifer o randdeiliaid yn gefnogol i sefydlu cofrestr ychwanegol o'r gweithlu ar ben y cofrestriad presennol o leoliadau; fodd bynnag, lleisiwyd pryderon ynghylch beichiau biwrocrataidd ychwanegol.

***Cyfyngiadau ar ffynonellau data***

3.18 Yn ogystal â thrafod argaeledd ffynonellau data, trafodwyd y cyfyngiadau a chyd-destun y rhai presennol fel rhan o'r cyfweliadau cwmpasu. Defnyddir y wybodaeth hon i ddatblygu'r dull modelu a deall yr ansicrwydd ynghylch y data y mae'n seiliedig arno.

3.19 Gan amlaf, roedd y cyfranogwyr yn amlinellu'r cyfyngiadau posibl y gofrestr AGC. Mae cofrestru gydag AGC yn orfodol i leoliadau sy'n gweithredu am o leiaf dwy awr y dydd ac felly'n ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am gyfansoddiad y sector. Fodd bynnag, gall lleoliadau sy'n gweithredu am lai na dwy awr, ac felly'n enwedig lleoliadau gwaith chwarae fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, neu ddarpariaeth gwaith chwarae yn ystod y gwyliau gael eu tangynrychioli'n systematig, yn ôl cyfranogwyr. Gall cofnodion eraill fod wedi dyddio neu wedi'u hatal. Yn ôl pob sôn, cynhaliodd AGC gyfnodau o wiriadau i weld a oedd lleoliadau cofrestredig yn dal yn weithredol ac er mwyn diweddaru'r “statws gwasanaeth” yng nghofrestriad y lleoliadau. Gall hyn gyfyngu ar ddibynadwyedd cyfres-amser cyfanswm niferoedd y lleoliadau cofrestredig a phryd y gall fod dirywiad wedi digwydd.

3.20 Mae cofrestru'n digwydd ar lefel lleoliad ac felly nid yw'n cynnig unrhyw wybodaeth am gyfansoddiad neu union niferoedd y staff o fewn pob lleoliad - ac eithrio yn achos gwarchodwyr plant sy'n gorfod cofrestru ar wahân, o ystyried bod un person yn aml yn cyfateb i un lleoliad. Pwysleisiodd y cyfranogwyr ymhellach broblemau posibl gyda gorgyfrif neu dangyfrif y mathau o leoliadau, un enghraifft oedd lleoliadau a gyfrifir yn rhai Saesneg er eu bod yn cynnig darpariaeth ddwyieithog. Efallai na fydd niferoedd lleoedd yn gywir ychwaith, a dylid eu deall fel uchafswm ar unrhyw un adeg, yn ôl y cyfranogwyr. Un enghraifft a grybwyllwyd oedd y posibilrwydd o gyfrif ddwywaith y cofrestriadau ar gyfer cyplau sy'n warchodwyr plant. Eglurodd y cyfranogwyr y gallai'r ddau bartner fod wedi'u cofrestru ar wahân mewn rhai achosion oherwydd gofynion ffurfiol, ond eto eu bod yn gofalu am yr un

grŵp o blant.[22] At hynny, gall anawsterau gyda chofrestru a gwaith papur gymell lleoliadau i weithredu mewn ffordd i osgoi gorfod cofrestru a allai ddylanwadu ar y data ar gyfansoddiad y sector a ddarperir. Mae cyfranogwyr hefyd yn adrodd y gall y broses gofrestru gymryd rhwng 6 a 9 mis, a allai effeithio ar y cyfansoddiad ymhellach.[23]

3.21 O ran yr arolwg Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS), pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd yr arolwg hwn sydd wedi'i gynnal ar draws tonnau lluosog yn y gorffennol, ac sy'n caniatáu mewnwelediad i strwythur y sector a nodweddion lefel lleoliad y sector. Nododd y cyfranogwyr fod hon yn ffynhonnell werthfawr iawn o wybodaeth, gyda'r cafeat y gallai'r gyfradd ymateb, er tua 90 y cant ar gyfer y rhan fwyaf o donnau, dangynrychioli rhai lleoliadau yn systematig. Ymhellach, mae'r arolwg hwn yn cael ei gwblhau ar lefel lleoliad ac efallai nad yw'n casglu manylion unigol staff sy'n gweithio mewn lleoliadau priodol yn gywir. Nododd y cyfranogwyr hefyd mai dim ond y rhai sydd wedi cofrestru gydag AGC y gofynnir iddynt ymateb i'r SASS. Amlinellir diffyg mewnbwn gan y sector gwaith chwarae fel un canlyniad posibl.[24]

3.22 Nododd y cyfranogwyr er y gallai data aelodaeth rhanddeiliaid allanol fod yn ffynhonnell werthfawr, ar hyn o bryd, mae'n gyfyngedig o ystyried diffyg rhannu data aelodaeth o'r fath o fewn Cwlwm. Yn unol â hynny, ystyriwyd bod hyn yn wendid wrth asesu effaith polisi a'r galw ar y sector.

3.23 O ran sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu, rhybuddiodd rhanddeiliaid allanol y gallai staff sy'n siarad Cymraeg gael eu cyfrif sawl gwaith oherwydd gwaith cyfochrog mewn mwy nag un lleoliad. Ymhellach, nodir mai rheolwr y lleoliad sy'n adrodd am alluoedd ieithyddol yn y SASS, a gall hyn danamcangyfrif neu oramcangyfrif galluoedd.

### *Modelu blaenoriaethau*

3.24 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am eu hargymhellion ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr amcanestyniadau gweithlu ar gyfer Cam 2 yr ymchwil hwn, gan gynnwys

[22] Soniodd y cyfranogwr am y posibilrwydd o adolygu data i amcangyfrif pa mor fynych oedd cyfrif dwbl o'r fath.
[23] Mae'r ymchwil hwn yn canolbwyntio ar leoliadau cofrestredig yn unig. Mae barn rhanddeiliaid ar y rhwystrau i gofrestru wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn i adlewyrchu'r holl drafodaethau a gynhaliwyd yn ystod cyfweliadau.
[24] Mae lleoliadau anghofrestredig y tu allan i gylch gorchwyl yr ymchwil hwn.

senarios polisi a allai effeithio ar y galw am weithlu a chyfansoddiad y gweithlu dros y pum mlynedd nesaf.

3.25 Yn ystod cyfweliadau cwmpasu mewnol â swyddogion Llywodraeth Cymru, pwysleisiwyd blaenoriaethau craidd y prosiect, yn enwedig amcangyfrif cyfanswm maint y gweithlu, asesu ei amrywiaeth, amcanestyniadau ar gyfer nifer yr ymarferwyr cymwysedig sydd eu hangen, sgiliau iaith Gymraeg staff, yn ogystal â phatrymau dosbarthiad daearyddol y gweithlu ledled Cymru. Pwyntiau eraill a nodwyd gan gyfranogwyr i'w hystyried yn y modelu oedd ystyriaethau o heriau recriwtio a chadw a sut roedd hyn yn effeithio ar leoliadau.

3.26 Argymhellodd rhanddeiliaid allanol hefyd nifer o senarios polisi potensial i'r dyfodol ar gyfer ystyriaeth bosibl yn y modelu sydd i ddod. Y senarios a grybwyllwyd oedd ehangu'r Cynnig Gofal Plant a ariennir gan fandiau oedran gwahanol, ehangu Dechrau'n Deg, a gweithredu ymrwymiadau Cymraeg 2050 ymhellach. Ystyriaethau eraill a leisiwyd gan gyfranogwyr oedd unrhyw newidiadau yn y gofynion cofrestru (e.e. yn y rheolau ynghylch pa fathau o leoliadau oedd yn gorfod cofrestru, neu pa ofynion y byddai'n rhaid eu bodloni ar gyfer cofrestru), a phe bai'r cymwysterau gofynnol ar gyfer swyddi staff priodol yn newid.

3.27 O ran elfen gwaith maes Cam 2, nodwyd y dylid edrych yn fanwl ar ddulliau o hyfforddi a chymwysterau yn ogystal â chymhellion i aros yn y sector neu resymau dros adael. Pwysleisiodd y cyfranogwyr ymhellach bwysigrwydd cynnwys mwy ar ddarparwyr ac aelodau unigol o'r gweithlu yn yr ymchwil.

# 4. Canfyddiadau o’r adolygiad data

4.1 Mae’r adran yn rhoi crynodeb o ffynonellau data presennol sy’n ymwneud â natur y lleoedd gofal plant a chwarae sydd ar gael mewn lleoliadau cofrestredig, yn ogystal â’r gweithlu a gyflogir yn y sector. Bydd y ffynonellau data a nodir yn cael eu defnyddio i danategu’r model amcanestyniadau gweithlu a ddatblygwyd yng Ngham 2 yr ymchwil hwn, yn ogystal â rhoi canllaw i’r data a gesglir yn ystod yr arolwg a chyfweliadau/ grwpiau ffocws a gynllunnir ar gyfer Cam 2.

4.2 Nodwyd ffynonellau data i’w hadolygu drwy’r sianeli canlynol:

- rhestr o ffynonellau hysbys a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru
- ffynonellau a nodwyd neu a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfweliadau cwmpasu
- chwiliad desg, gan gynnwys ffynonellau data a ddefnyddiwyd mewn prosiectau ymchwil blaenorol yn ogystal â defnyddio geiriau allweddol wedi'u targedu mewn peiriannau chwilio.

4.3 Cafodd y wybodaeth a oedd ar gael trwy bob ffynhonnell ddata ei mapio yn erbyn yr agweddau penodol ar y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae y bydd amcanestyniadau Cam 2 yn ceisio rhoi mewnwelediad iddynt (gweler Atodiad C). Mae’r nodweddion allweddol a’r wybodaeth yn y cronfeydd data hyn wedi’u crynhoi’n fanwl isod, ynghyd â chyfyngiadau lle gellir nodi’r rhain.

4.4 Y ddwy ffynhonnell ddata fwyaf cynhwysfawr ar y gweithlu a lleoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig yng Nghymru yw cofrestr AGC a data SASS, sydd hefyd yn cael eu casglu gan AGC. Mae ystod o ffynonellau data eraill hefyd wedi’u hadolygu, gan gynnwys (i) data arolwg a gasglwyd o fewn cyhoeddiadau diwydiant untro, (ii) data a gasglwyd o fewn setiau data hydredol ar raddfa fawr, a (iii) unrhyw ddata o fewn strategaethau llywodraeth leol neu genedlaethol, cynlluniau gweithredu, ac asesiadau.

### Cronfa ddata cofrestr Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

4.5 Mae AGC yn cofrestru ac yn arolygu lleoliadau gofal dydd i blant o dan 12 oed, fel sy’n ofynnol gan Safonau Gofynnol Cenedlaethol a’r Rheoliadau. Fel rhan o’r ymarfer hwn, mae darparwyr cofrestredig yn adrodd ar ddata i AGC. Mae’r datganiadau a ddarperir i AGC yn rhoi data ar ystod o nodweddion lefel lleoliad, ac

mae ystadegau lefel gyfanredol o ddatganiadau AGC ar gael ar wefan StatsCymru.[25] Mae'r ystadegau perthnasol yn cynnwys:

- math o leoliad
- lleoliad daearyddol (lefel awdurdod lleol)
- prif iaith gweithredu, a lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
- nifer y lleoedd (uchafswm)
- nifer y cofrestriadau newydd neu achosion o ganslo.

4.6 Deellir bod nifer y lleoedd gofal plant a chwarae a adroddwyd gan AGC yn adlewyrchu uchafswm capasiti'r gofrestr o ran uchafswm nifer y plant y gellir gofalu amdanynt ym mhob lleoliad ar unrhyw un adeg. Fel y cyfryw, ni fydd y ffigur hwn o reidrwydd yn cyfateb i'r defnydd gwirioneddol o'r gwasanaeth neu gyfanswm y plant ar lyfrau'r darparwr. Cyfyngiad pellach ar ddata a gesglir gan AGC yw mai dim ond darparwyr gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig y mae'n ei gynnwys, sy'n golygu y bydd tanddatganiad o'r ddarpariaeth (yn seiliedig ar drafodaethau rhanddeiliaid, mae clybiau plant a'r sector gwaith chwarae yn arbennig yn debygol o gael eu tangynrychioli o ganlyniad). Crynhoir isod y meini prawf ar gyfer cofrestru gydag AGC.

***Gofynion cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru***

4.7 O dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae'n ofynnol i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaeth gwarchod plant neu ofal dydd gofrestru ag AGC. Mae'r gwasanaethau canlynol yn dod o fewn y diffiniad o ofal plant a chwarae:

- gofal dydd llawn
- gofal dydd sesiynol
- gofal plant y tu allan i oriau ysgol
- crèches
- darpariaeth chwarae mynediad agored
- gwarchod plant.

[25] Cyhoeddiad data AGC gan StatsCymru ar wasanaethau a lleoedd gofal a reoleiddir. Gweler: Gwasanaethau Gofal a lleoedd a reoleiddir gan yr Arolygiaeth Gofal Cymru (llyw.cymru)

4.8 Mae nifer o eithriadau i'r gofyniad i wasanaeth gael ei gofrestru, gan gynnwys pan ddarperir gofal am lai na dwy awr mewn unrhyw un diwrnod. Darperir canllawiau a diffiniadau manwl ar ofynion cofrestru ac eithriadau yng Nghanllaw Cofrestru AGC.[26]

**Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS)**

4.9 Fel rhan o'u cofrestriad gydag AGC, ac sy'n ofynnol o dan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, rhaid i Unigolion Cyfrifol a Phersonau Cofrestredig gwblhau SASS blynyddol. Mae'r datganiad yn casglu gwybodaeth fanwl am ystod o ffactorau gan gynnwys defnydd iaith, oriau gweithredu, cyfraddau sesiynau gofal plant a staffio. Yn berthnasol i'r gwaith hwn, cesglir y data canlynol drwy'r SASS ar lefel y darparwr:

- Nodweddion y lleoliad:
  - Math o leoliad
  - Lleoliad daearyddol (lefel awdurdod lleol neu ward etholiadol)
  - Iaith gweithredu.
- Nifer o weithwyr, yn ôl:
  - Math o gymhwyster
  - Math o gyflogaeth (amser llawn yn erbyn rhan-amser, contractau dim oriau)
  - Gallu staff i siarad Cymraeg
  - Ymunwyr neu ymadawyr, swyddi gwag.

4.10 Yn debyg i gronfa ddata cofrestr AGC, un o gyfyngiadau holiadur SASS yw mai dim ond darparwyr cofrestredig y mae'n ei gynnwys (nid yw’n glir faint o ddarparwyr anghofrestredig sydd). Nid yw’r arolwg ychwaith yn adlewyrchu’r holl ddarparwyr cofrestredig, o ystyried na wnaeth rhai darparwyr ymateb, er y deellir bod cyfraddau ymateb yn uchel iawn fel rheol (adroddwyd bod y fersiwn ddiweddaraf wedi cyflawni cyfradd ymateb o tua 90 y cant o ddarparwyr cofrestredig). Dylid tynnu sylw hefyd, fel gydag unrhyw arolwg, bod cysondeb a chywirdeb y wybodaeth a ddarperir yn dibynnu ar ansawdd y wybodaeth a adroddir gan ddarparwyr cofrestredig, nad yw'n bosibl i ni ei dilysu. Mae’r cyfyngiad hwn yn ymwneud â gwybodaeth

[26] Canllaw i Gofrestru AGC. Gweler: Cofrestru gwasanaeth gofal plant a chwarae | Arolygiaeth Gofal Cymru

hunangofnodedig am bob darparwr cofrestredig a'r wybodaeth y maent yn ei hadrodd yn ymwneud â'u gweithluoedd priodol (h.y., yn ymwneud â galluoedd a chymwysterau iaith y gweithlu).

**Ffynonellau data nodedig eraill**

***Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru (2021)***

4.11 Mae Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru[27] yn rhoi ciplun unwaith ac am byth o nodweddion y gweithlu gwaith chwarae yng Nghymru, gyda golwg ar fwydo i mewn i Adolygiad Gweinidogol Llywodraeth Cymru o Chwarae 2019-21. Derbyniodd yr arolwg 391 o ymatebion, gan gynnwys 211 gan weithwyr chwarae, 90 gan weithwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar, a 90 gan weithwyr chwarae proffesiynol eraill. Yn berthnasol i'r ymarfer mapio data hwn, gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr hunan-adrodd ar y nodweddion canlynol (ymysg eraill):

- sgiliau siarad Cymraeg
- rhywedd
- ethnigrwydd
- oed
- lleoliad daearyddol (yn ôl awdurdod lleol)
- tâl fesul awr
- lefel cymhwyster.

4.12 Un cyfyngiad ar yr astudiaeth hon yw ei bod yn seiliedig ar sampl gyfyngedig o weithwyr chwarae, ac felly nid yw'n glir i ba raddau y mae'r canlyniadau'n gynrychioliadol o holl boblogaeth gweithwyr chwarae Cymru.

***Arolwg Blynyddoedd Cynnar (2022)***

4.13 Yn 2022 cynhaliodd Arad Research, a gomisiynwyd gan Blynyddoedd Cynnar Cymru, arolwg ar-lein o waith chwarae a gofal plant.[28] Derbyniodd yr arolwg 362 o ymatebion, yn bennaf gan ymatebwyr a nododd eu bod yn ddarparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae cofrestredig, ac awdurdodau lleol. Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr adrodd ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys:

---

[27] Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru (Chwarae Cymru, 2021). Gweler: Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021 by Play Wales - Issuu

[28] Arolwg Blynyddoedd Cynnar (Arad, 2022). Gweler: Adroddiadau | cwlwm

- nifer y staff a gyflogir (yn ôl nifer yr oriau a weithiwyd)
- natur contractau staff (h.y., parhaol, dros dro, dim oriau)
- trosiant staff (h.y., recriwtio, swyddi gwag ac ymadawyr)
- cyflog cyfartalog yr awr (yn ôl hynafedd).

4.14 Un o gyfyngiadau'r astudiaeth hon yw ei bod yn seiliedig ar sampl gyfyngedig o ddarparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae, ac felly nid yw'n glir i ba raddau y mae'r canlyniadau'n gynrychioliadol o'r boblogaeth gyfan o ddarparwyr gofal plant a chwarae yng Nghymru.

***Asesiadau digonolrwydd gofal plant (CSA)***

4.15 Fel y darperir o dan adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006, drwy Reoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesu Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio asesiadau o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant (Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant) yn eu hardal bob pum mlynedd ac i gadw'r rhain dan adolygiad.

4.16 O dan ganllawiau atodol Llywodraeth Cymru, anogir awdurdodau lleol i ddefnyddio ffynonellau data presennol i ddod i gasgliad ar ddigonolrwydd y gwasanaethau a ddarperir.[29] Mae'r canllawiau hyn yn gofyn i awdurdodau lleol ystyried data arolwg poblogaeth blynyddol, data gan Dewis Cymru, a SASS AGC. Anogir awdurdodau lleol hefyd i gasglu eu data eu hunain mewn perthynas â darpariaeth gofrestredig ac anghofrestredig lle bo angen (e.e., trwy arolwg o rieni, gofalwyr, neu ddarparwyr gofal plant).[30]

***Arolwg Gweithlu Cymru NDNA 2018-19***

4.17 Casglodd a dadansoddodd Arolwg Gweithlu Cymru NDNA 2018-19 ddata ar gyfansoddiad, cymwysterau, cymhellion, a heriau'r gweithlu mewn meithrinfeydd a lleoliadau gofal plant eraill yng Nghymru. Ymatebodd cant a deunaw o leoliadau blynyddoedd cynnar i'r arolwg; gyda'i gilydd, roedd y rhain yn gyfrifol am gyflogi dros 1,350 o staff i gyflenwi lleoedd i fwy nag 8,000 o blant.

4.18 Yn fwy penodol, roedd y data allweddol perthnasol a gasglwyd drwy'r arolwg yn cynnwys:

---

[29] Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (CSA) 2022: canllawiau atodol i awdurdodau lleol. Gweler: [Asesiad digonolrwydd gofal plant 2022: canllawiau ategol i awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU]

[30] Mae Dewis Cymru yn borth o wybodaeth am wasanaethau a gweithgareddau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yng Nghymru.

- lefelau cymwysterau'r gweithlu
- heriau recriwtio a wynebir gan ddarparwyr o ran lefel cymhwyster gweithwyr
- swyddi gwag yn y gweithlu a throsiant staff
- dadansoddiad o'r gweithlu yn ôl rhywedd.

4.19 Un o gyfyngiadau'r astudiaeth hon yw ei bod yn seiliedig ar sampl gyfyngedig o ddarparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae ac felly nid yw'n glir i ba raddau y mae'r canlyniadau'n gynrychioliadol o'r boblogaeth gyfan o ddarparwyr gofal plant a chwarae yng Nghymru.

***Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)***

4.20 Mae CYBLD yn gasgliad electronig o ddata disgyblion ac ysgolion a ddarperir gan holl ysgolion cynradd, canol, uwchradd, meithrin ac arbennig y sector, ac a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae'n darparu data ar nodweddion demograffig ac economaidd-gymdeithasol disgyblion rhwng 5 a 15 oed, ac felly mae'n ffynhonnell wybodaeth i feincnodi nodweddion y gweithlu yn ei herbyn (h.y., deall a yw proffil y gweithlu yn cyd-fynd â phroffil y boblogaeth ddisgyblion). Mae hefyd yn casglu ystod o bwyntiau data sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys disgyblion yn ôl iaith yr ysgol, disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, a'u gallu i siarad Cymraeg (fel yr asesir gan eu rhieni).

4.21 O ystyried diffyg data arall ar ddemograffeg plant sy'n defnyddio gwasanaethau gofal plant a chwarae, mae'r set ddata hon yn rhoi cipolwg ar nodweddion y plant sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn y gellir eu defnyddio i asesu a yw'r gweithlu'n gynrychioliadol o'r plant a'r bobl ifanc y mae'n eu gwasanaethu.

4.22 Cesglir data perthnasol drwy'r arolwg a'i gyhoeddi drwy StatsCymru, gan gynnwys dadansoddiad o ddisgyblion fesul:[31]

- rhywedd
- cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim
- dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (h.y., Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, Disgyblion â Datganiad, Cynllun Datblygu Unigol)

[31] Cyhoeddiad StatsCymru o ddata CYBLD. Gweler: [Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (llyw.cymru)]()

- Saesneg fel iaith ychwanegol (h.y., Newydd i'r Saesneg, caffael cynnar, datblygu cymhwysedd)
- cyfran y disgyblion yr adroddwyd eu bod yn Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

***Data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru***

4.23 Mae'r data a gesglir gan Lywodraeth Cymru drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) yn sail i sawl agwedd ar ei gwaith, gan gynnwys cynllunio, ariannu, monitro a sicrhau ansawdd darpariaeth ôl-16. Mae'r data hefyd yn darparu'r ffynhonnell swyddogol o ystadegau ar ôl-16 (dysgwyr nad ydynt mewn addysg uwch yng Nghymru).

4.24 Yn seiliedig ar y llawlyfr cymorth ar gyfer LLWR, ceir newidynnau diddordeb posibl yn y gronfa ddata, gan gynnwys lefel cymhwyster i bob dysgwr, manylion ei gyflogwr (neu os yw'n ddi-waith), a nodweddion demograffig a nodweddion economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys os yw'r atebydd yn ystyried ei hun yn siaradwr Cymraeg, a'i oedran, rhywedd, ethnigrwydd, awdurdod lleol, statws anabledd, a mwy).[32]

4.25 Bydd gwerth y ffynhonnell ddata ar gyfer deall lefel cymhwyster y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn dibynnu i ba raddau y bydd yn caniatáu cysylltiad rhwng dysgwyr unigol a'u hymwneud â'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn benodol (e.e., a nodir drwy God SIC gweithlu eu cyflogwr).[33] Ceir mwy o eglurder ynghylch gwerth y ffynhonnell ddata hon ar gyfer deall darpariaeth gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae a'i weithlu yng Ngham 2, oherwydd ar adeg ysgrifennu nid yw mynediad i'r data wedi'i sicrhau eto.

***Arolwg Cenedlaethol Cymru***

4.26 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg ffôn ar hap ar raddfa fawr sy'n casglu data gan tua 12,000 o unigolion yng Nghymru bob blwyddyn ar amrywiaeth o bynciau gwahanol.[34] Yn y gorffennol, mae wedi cynnwys cwestiynau penodol ar y gofal plant a ddarperir i blant yr ymatebwyr, gan ddarparu'r data canlynol sy'n berthnasol i'r gwaith hwn:

- p'un a yw'r plentyn yn defnyddio gofal plant

---

[32] Llawlyfr cymorth defnyddwyr cofnodion Dysgu Gydol Oes Cymru ar gyfer darparwyr dysgu (XML) 2021/22. Gweler: [Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru: llawlyfr cymorth i ddefnyddwyr 2022 i 2023 | LLYW.CYMRU]
[33] Mae codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) yn godau rhifiadol pedwar digid sy'n categoreiddio'r diwydiannau y mae cwmnïau'n perthyn iddynt yn seiliedig ar eu gweithgareddau busnes. Defnyddir codau SIC yn gyffredin i segmentu data ar draws diwydiannau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
[34] Arolwg Cenedlaethol Cymru. Gweler: [Arolwg Cenedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU]

- ym mha iaith y ceir y gofal plant
- defnydd o ofal plant ffurfiol.

4.27 Un o gyfyngiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru data yw nad yw'r un cwestiynau'n cael eu hailadrodd yn gyffredinol bob blwyddyn, ac ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau am ddarpariaeth gofal plant ers fersiwn 2019-20 o'r arolwg.[35] Mae hyn yn cyfyngu ar allu ymchwilwyr i olrhain newidiadau mewn pwyntiau data allweddol dros amser. Nid yw'r arolwg ychwaith yn caniatáu dadansoddiad mwy gronynnog o'r data mewn perthynas â'r dimensiynau diddordeb allweddol, megis yn ôl y math o leoliad.

***Arolwg o'r llafurlu***

4.28 Mae'r Arolwg o'r llafurlu (LFS) yn astudiaeth o amgylchiadau cyflogaeth poblogaeth y DU a dyma astudiaeth aelwydydd fwyaf y DU. Yn seiliedig ar ymatebion i'r arolwg, mae'r SYG yn cynhyrchu cyfres o amcangyfrifon ar gyfer maint y gweithlu yng Nghymru yn seiliedig ar ddosbarthiadau galwedigaeth (yn seiliedig ar Ddosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) 2020).[36] Gellir cyrchu'r data hwn drwy gronfa ddata Nomis y Swyddfa Ystadegau Gwladol o ystadegau cyfrifiad swyddogol ac ystadegau'r farchnad lafur.[37] Mae'r dosbarthiadau galwedigaethol canlynol yn berthnasol i'r astudiaeth hon (gan nodi bod codau SOC wedi newid dros amser):

- cynorthwywyr addysg gynnar a gofal plant (SOC 2020: 6111)
- gwarchodwyr plant (SOC 2020: 6114)
- nanis ac au pairs (SOC 2020: 6116)
- gweithwyr chwarae (SOC 2020: 6117)

4.29 O ystyried maint cyfyngedig y sampl, dylid nodi fod yr hyder ynghylch amcangyfrifon ar gyfer dadansoddiadau mwy gronynnog o'r gweithlu yng Nghymru yn dod yn llai sicr, yn enwedig ar gyfer segmentau gweithlu sy'n gymharol fach. Er enghraifft, y cyfwng hyder o 95 y cant ar gyfer cynorthwywyr addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru yw 2,000 o gymharu ag amcangyfrif canolog o 6,000 o weithwyr, tra bod y cyfwng hyder ar gyfer y galwedigaethau rhestredig eraill naill ai'n annibynadwy neu ni ellir ei amcangyfrif.[38] Mae pryderon hefyd bod LFS yn tanamcangyfrif y gweithlu

---

[35] Cafwyd cwestiynau am ddarpariaeth gofal plant yn rhifyn 2022-23 o Arolwg Cenedlaethol Cymru, er nad oedd y data ar gael i'r cyhoedd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.
[36] Mae'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) yn ddosbarthiad cyffredin o wybodaeth alwedigaethol ar gyfer y DU. Defnyddir codau SOC yn aml gan SYG i segmentu data mewn cyhoeddiadau ystadegol.
[37] Nomis - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth /Arolwg o'r llafurlu. Gweler: Annual Population Survey/Labour Force Survey - Data Sources - home - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)
[38] Mae cyfwng hyder yn cyfeirio at y tebygolrwydd y bydd paramedr poblogaeth yn disgyn rhwng set o werthoedd am gyfran benodol o weithiau. Felly mae cyfwng hyder o 95 y cant yn awgrymu bod tebygolrwydd o 95 y cant bod y gwir werth yn dod o fewn yr ystod benodedig.

gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru, gyda'r amcangyfrifon sy'n deillio o LFS yn hanesyddol yn sylweddol is nag amcangyfrifon gweithlu sy'n deillio o ddata SASS. Mae'n ymddangos bod amcangyfrifon lefel y DU o'r gweithlu ar gyfer galwedigaethau perthnasol yn fwy cadarn ar y cyfan, er nad yw'n glir pa mor dda y gellid cyffredinoli o'r rhain yng nghyd-destun Cymru.

***Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs)***

4.30 Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i ymgynghori, cynhyrchu ac adolygu cynlluniau sy'n darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio a chyflenwi addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg yn eu hardal.[39]

4.31 Nodau trosfwaol Cymraeg 2050 yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 a sicrhau bod canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd yn cynyddu i 20 y cant erbyn 2050.

4.32 Yn seiliedig ar sampl o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol a adolygwyd, gall data perthnasol gynnwys nifer y lleoedd blynyddoedd cynnar sydd ar gael ym mhob awdurdod lleol, yn ogystal â thargedau deng mlynedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol mewn addysg blynyddoedd cynnar. Nid yw'n glir eto p'un a yw'r data hwn yn cael ei gronni i'r lefel genedlaethol mewn cronfa ddata ganolog.

***Cynllun Gweithlu Cymraeg Mewn Addysg: dadansoddiad data***

4.33 Yn cyd-fynd â Chynllun Gweithlu Cymraeg Mewn Addysg, ceir dadansoddiad ategol sy'n darparu data ar y llinell sylfaen a'r nifer targed o athrawon cynradd ac uwchradd sydd eu hangen i gyrraedd targedau addysg cyfrwng Cymraeg 2031, gan gynnwys y rhai sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n addysgu'r Gymraeg fel pwnc.[40] Bydd y ffynhonnell ddata hon yn cael ei hystyried wrth ragamcanu'r galw cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol am wasanaethau a gweithwyr yn y sector gofal plant a chwarae yn ystod Cam 2 y prosiect hwn.

***Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru***

4.34 Yn 2017, cynhaliodd Alma Economics, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, adolygiad untro o'r sector gofal plant ffurfiol yng Nghymru i lywio newidiadau

---

[39] Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Canllawiau). Gweler: Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg | LLYW.CYMRU

[40] Cynllun gweithlu Cymraeg mewn addysg. Gweler: Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg | LLYW.CYMRU

arfaethedig i bolisi gofal plant ar gyfer plant tair i bedair oed. Dadansoddodd yr adolygiad ddata o ystod o gronfeydd data – gan gynnwys SASS, cofrestr AGC, a data Arolwg o'r llafurlu – yn ogystal ag o Arolwg Gofal Plant Alma Economics, arolwg o tua 500 o ddarparwyr gofal plant a chwarae. Roedd y data perthnasol a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn cynnwys amcangyfrifon o'r gweithlu gofal plant wedi'u dadansoddi yn ôl:

- lefel cymhwyster
- math o leoliad
- oed
- lefel cyflog.

4.35 Un o gyfyngiadau'r astudiaeth hon yw ei bod yn seiliedig ar sampl gyfyngedig o ddarparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae ac felly nid yw'n glir i ba raddau y mae'r canlyniadau'n gynrychioliadol o boblogaeth gyfan darparwyr gofal plant a chwarae yng Nghymru. O gymharu â'r arolygon y cyfeirir atynt uchod, mae'r astudiaeth hefyd wedi dyddio, o ystyried ei bod wedi cael ei chynnal yn 2017.

***Amcanestyniadau a thaflwybrau ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg***

4.36 Yn 2017 comisiynodd Llywodraeth Cymru amcangyfrif o'r taflwybr sydd ei angen i gyrraedd targed 2050 Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Cyplyswyd hyn ag amcanestyniadau ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn seiliedig ar allosodiad o dueddiadau a phatrymau cyfredol.[41]

4.37 Un cyfyngiad ar yr amcanestyniadau hyn yw eu bod yn seiliedig ar gyfres o ragdybiaethau, gan gynnwys y rhai a hysbyswyd gan ddata o Gyfrifiad 2011 ac amcangyfrifon poblogaeth o ddechrau'r 2010au, sy'n debygol o fod wedi dyddio. Deellir bod cynlluniau i ddiweddaru'r amcanestyniadau hyn gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021.

[41] Adroddiad technegol: Amcanestyniadau a thaflwybrau ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011 i 2050. Gweler: Amcangyfrifon siaradwyr Cymraeg 2011 i 2050: adroddiad technegol | LLYW.CYMRU

## 5. Dadansoddiad o’r data presennol

5.1 Mae’r adran hon yn cyflwyno’r mewnwelediadau allweddol o’r ffynonellau data a adolygwyd yn ystod Cam 1 y gwaith, gan gynnwys data o gofrestr AGC, SASS 2023, a ffynonellau perthnasol eraill.

5.2 Mae'r ffynonellau mwyaf cadarn, cyflawn a chyfoes wedi eu blaenoriaethu wrth bennu'r ystadegau i'w cyflwyno. Dylid nodi serch hynny bod cyfyngiadau o hyd i nifer o'r ffynonellau data y cyfeiriwyd atynt. Mae rhai wedi dyddio ac felly efallai nad ydynt yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ar gyfer darparwyr gwasanaethau neu weithwyr. Mae gan ddata arolwg hefyd gyfyngiadau naturiol, gan gynnwys meintiau sampl cyfyngedig sy'n golygu efallai nad yw'r canfyddiadau'n cynrychioli'r boblogaeth lawn o ddarparwyr gwasanaethau.

**Nifer a nodweddion lleoliadau gofal plant a chwarae**

5.3 Mae cofrestr AGC yn rhoi darlun cynhwysfawr o nifer y lleoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig.[42] Yn 2021-22, roedd 3,574 o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig gweithredol neu wedi’u hatal yng Nghymru, i lawr o 4,137 yn 2017-18.[43]

**Ffigur 1: Nifer y lleoliadau gofal plant a chwarae**




Ffynhonnell: Cofrestr AGC drwy StatsCymru
Noder: mae’r ffigurau uchod yn rhai pwynt mewn amser ar ddiwedd pob blwyddyn yn diweddu mis Mawrth

[42] Gwasanaethau a lleoedd gofal a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Gweler: Gwasanaethau Gofal a lleoedd a reoleiddir gan yr Arolygiaeth Gofal Cymru (llyw.cymru)

[43] Mae pob blwyddyn a gyflwynir yn y fformat hwn yn cynrychioli ffigurau ar ddiwedd pob blwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth (e.e., mae 2022/23 yn cynrychioli’r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023).

5.4 Mae cofrestr AGC hefyd yn darparu dadansoddiad o'r lleoliadau gofal plant a chwarae hyn fesul math. Yn 2021-22, gwarchodwyr plant oedd yn cyfrif am y nifer fwyaf o leoliadau (1,686), ac yna gofal dydd llawn (1,015) a gofal dydd sesiynol (463). Roedd y gweddill yn cynnwys gofal y tu allan i oriau ysgol, darpariaeth chwarae mynediad agored, a meithrinfeydd. Dengys y data bod rhai newidiadau wedi bod yn nosbarthiad lleoliadau ar draws mathau o leoliadau, gyda gofal dydd llawn yn gweld cynnydd yn nifer y lleoliadau ers 2017-18, tra bod pob math arall o leoliad wedi gweld gostyngiad yn nifer y lleoliadau yn ystod yr un cyfnod.

**Tabl 1: Nifer y lleoliadau gofal plant a chwarae, yn ôl math o leoliad**

| Math o leoliad | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr plant | 2,201 | 2,131 | 2,025 | 1,931 | 1,686 |
| Crèches | 27 | 26 | 20 | 17 | 14 |
| Gofal dydd llawn | 749 | 878 | 970 | 1,010 | 1,015 |
| Darpariaeth chwarae mynediad agored | 50 | 45 | 41 | 40 | 38 |
| Gofal y tu allan i’r ysgol | 415 | 390 | 385 | 385 | 358 |
| Gofal dydd sesiynol | 695 | 603 | 525 | 499 | 463 |
| **Cyfanswm** | **4,137** | **4,073** | **3,966** | **3,882** | **3,574** |

Ffynhonnell: Cofrestr AGC drwy StatsCymru
Noder: mae’r ffigurau uchod yn rhai pwynt mewn amser ar ddiwedd pob blwyddyn yn diweddu mis Mawrth

5.5 Gweler y dosbarthiad o leoliadau gofal plant yn ôl awdurdod lleol yn unol â data cofrestr AGC yn Nhabl 2.

**Tabl 2: Nifer y lleoliadau gofal plant, yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 115 | 115 | 116 | 115 | 102 |
| Gwynedd | 197 | 192 | 185 | 178 | 170 |
| Conwy | 150 | 156 | 160 | 159 | 152 |
| Sir Ddinbych | 137 | 132 | 133 | 129 | 116 |
| Sir y Fflint | 255 | 239 | 228 | 232 | 218 |
| Wrecsam | 213 | 198 | 194 | 191 | 190 |
| Powys | 217 | 213 | 212 | 219 | 192 |
| Ceredigion | 129 | 133 | 124 | 115 | 107 |
| Sir Benfro | 160 | 158 | 157 | 151 | 132 |
| Sir Gaerfyrddin | 240 | 255 | 251 | 254 | 238 |
| Abertawe | 247 | 235 | 231 | 214 | 180 |
| Castell-nedd Port Talbot | 158 | 154 | 146 | 139 | 128 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 160 | 159 | 155 | 148 | 134 |
| Bro Morgannwg | 237 | 236 | 221 | 223 | 203 |
| Caerdydd | 471 | 461 | 456 | 445 | 418 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | 256 | 259 | 249 | 237 | 229 |
| Merthyr Tudful | 45 | 48 | 51 | 47 | 41 |
| Caerffili | 256 | 256 | 241 | 235 | 214 |
| Blaenau Gwent | 69 | 65 | 62 | 63 | 59 |
| Torfaen | 103 | 99 | 97 | 98 | 92 |
| Sir Fynwy | 140 | 136 | 130 | 120 | 106 |
| Casnewydd | 182 | 174 | 167 | 169 | 152 |
| **Cyfanswm** | **4,137** | **4,073** | **3,966** | **3,882** | **3,574** |

Ffynhonnell: Cofrestr AGC drwy StatsCymru
Noder: mae'r ffigurau uchod yn rhai pwynt mewn amser ar ddiwedd pob blwyddyn yn diweddu mis Mawrth

**Darpariaeth gofal plant (lleoedd)**

5.6 Mae cofrestr AGC yn darparu data ar uchafswm nifer y lleoedd y gall darparwyr gofal plant a chwarae cofrestredig eu darparu yn ystod un sesiwn gofal plant neu chwarae. Dengys y data bod cyfanswm y capasiti wedi aros yn gymharol gyson, sef 80,000 i 85,000 o leoedd rhwng 2016-17 a 2021-22, gyda 81,426 o leoedd ar gael erbyn 2021-22.

**Ffigur 2: Cyfanswm nifer y lleoedd gofal plant a chwarae (uchafswm)**




Ffynhonnell: Cofrestr AGC drwy StatsCymru
Noder: mae'r ffigurau uchod yn rhai pwynt mewn amser ar ddiwedd pob blwyddyn yn diweddu mis Mawrth

5.7 Mae cofrestr AGC hefyd yn darparu dadansoddiad o nifer y lleoedd gwag yn ôl math o leoliad. Yn 2021-22, gofal dydd llawn oedd y nifer fwyaf o leoedd (39,412), ac yna gofal y tu allan i oriau ysgol (14,723) a gwarchodwyr plant (13,517). Roedd y gweddill yn cynnwys gofal dydd sesiynol, darpariaeth chwarae mynediad agored, a crèches. Dengys y data y cafwyd rhai newidiadau yn nosbarthiad lleoedd ar draws

mathau o leoliadau, gyda gofal dydd llawn yn gweld cynnydd yn nifer y lleoedd gwag ers 2017-18, tra bod pob math arall o leoliad wedi gweld gostyngiad yn nifer y lleoedd yn ystod yr un cyfnod.

Tabl 3: Nifer y lleoedd (uchafswm), yn ôl math o leoliad

| Math o leoliad | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr plant | 16,184 | 16,113 | 15,694 | 15,132 | 13,517 |
| Crèches | 657 | 636 | 546 | 457 | 406 |
| Gofal dydd llawn | 31,197 | 34,593 | 37,638 | 39,134 | 39,412 |
| Darpariaeth chwarae mynediad agored | 3,534 | 3,111 | 3,025 | 2,960 | 2,931 |
| Gofal y tu allan i'r ysgol | 15,909 | 15,366 | 15,656 | 15,484 | 14,723 |
| Gofal dydd sesiynol | 15,584 | 13,611 | 11,766 | 11,341 | 10,437 |
| **Cyfanswm** | **83,065** | **83,430** | **84,325** | **84,508** | **81,426** |

Ffynhonnell: Cofrestr AGC drwy StatsCymru
Noder: mae'r ffigurau uchod yn rhai pwynt mewn amser ar ddiwedd pob blwyddyn yn diweddu mis Mawrth

*5.8* Gweler isod y dosbarthiad o leoedd gofal plant yn ôl awdurdodau lleol yn unol â data cofrestr AGC.

**Tabl 4: Nifer y lleoedd (uchafswm), yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 2,109 | 2,128 | 2,146 | 2,182 | 2,068 |
| Gwynedd | 3,505 | 3,616 | 3,543 | 3,457 | 3,437 |
| Conwy | 3,875 | 3,861 | 3,938 | 3,891 | 3,820 |
| Sir Ddinbych | 3,543 | 3,458 | 3,628 | 3,596 | 3,383 |
| Sir y Fflint | 5,872 | 5,601 | 5,519 | 5,663 | 5,475 |
| Wrecsam | 6,458 | 6,287 | 6,399 | 6,371 | 6,466 |
| Powys | 3,675 | 3,787 | 3,866 | 4,150 | 3,723 |
| Ceredigion | 2,038 | 2,092 | 2,008 | 1,985 | 1,758 |
| Sir Benfro | 2,867 | 2,871 | 2,960 | 2,835 | 2,622 |
| Sir Gaerfyrddin | 4,367 | 4,667 | 4,635 | 4,788 | 4,531 |
| Abertawe | 5,104 | 4,908 | 5,091 | 4,950 | 4,593 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2,357 | 2,320 | 2,433 | 2,462 | 2,456 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3,025 | 3,145 | 3,264 | 3,179 | 2,983 |
| Bro Morgannwg | 3,739 | 3,915 | 3,956 | 4,252 | 4,025 |
| Caerdydd | 9,845 | 9,787 | 10,338 | 10,147 | 9,918 |
| Rhondda Cynon Taf | 4,596 | 4,877 | 4,754 | 4,660 | 4,794 |
| Merthyr Tudful | 919 | 985 | 972 | 921 | 842 |
| Caerffili | 4,210 | 4,343 | 4,201 | 4,221 | 4,079 |
| Blaenau Gwent | 1,134 | 1,143 | 1,057 | 1,110 | 1,114 |
| Torfaen | 3,142 | 3,060 | 3,118 | 3,135 | 3,208 |
| Sir Fynwy | 2,570 | 2,563 | 2,595 | 2,488 | 2,392 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Casnewydd | 4,115 | 4,016 | 3,904 | 4,046 | 3,733 |
| **Cyfanswm** | **83,065** | **83,430** | **84,325** | **84,508** | **81,426** |

Ffynhonnell: Cofrestr AGC drwy StatsCymru
Noder: mae'r ffigurau uchod yn rhai pwynt mewn amser ar ddiwedd pob blwyddyn yn diweddu mis Mawrth

***Nodweddion y gweithlu***

5.9 Nid oes cronfa ddata gynhwysfawr o nodweddion demograffig ac economaidd-gymdeithasol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru. Er y bydd yr arolwg y byddwn yn ei ddatblygu yn ystod Cam 2 yn ceisio rhoi mewnwelediad i'r meysydd hyn, mae cyfres o gyhoeddiadau untro presennol wedi rhoi rhywfaint o fewnwelediad i nodweddion is-setiau amrywiol o'r gweithlu trwy eu harolygon eu hunain. Rhoddir crynodeb o'r data presennol yn ôl nodwedd o ddiddordeb isod.

***Gweithlu yn ôl math o leoliad***

5.10 Mae data lefel darparwr SASS 2023 yn rhoi'r amcangyfrifon mwyaf cyflawn a dibynadwy o faint y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn ôl y math o leoliad, yn ogystal â dadansoddiadau pellach ar draws dimensiynau diddordeb allweddol.[44]

5.11 Dengys y dadansoddiad bod 15,107 o staff yn cael eu cyflogi gan ddarparwyr gofal plant a chwarae cofrestredig, yn seiliedig ar gyfradd ymateb o tua 90 y cant o leoliadau cofrestredig. Drwy allosod, byddai hyn yn dangos bod cyfanswm gweithlu o tua 17,000 o weithwyr yn cael eu cyflogi gan ddarparwyr gofal plant a chwarae cofrestredig yng Nghymru. Mae'r siart isod yn dangos bod y mwyafrif (70 y cant) o'r gweithwyr hyn yn cael eu cyflogi gan leoliadau gofal dydd llawn.

[44] Dylid nodi bod 612 o warchodwyr plant a ymatebodd i SASS 2023 yn dweud nad oedd ganddynt unrhyw staff unigol yn gweithio yn eu gwasanaeth. Efallai y bydd yr anghysondeb hwn yn tanddatgan nifer y gwarchodwyr plant sy'n gweithredu yn y sector ac a gynrychiolir yn y dadansoddiad hwn o ddata SASS 2023.

**Ffigur 3: Gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn ôl math o leoliad cofrestredig**




Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ymatebion i SASS 2023, a gyflawnodd gyfradd ymateb o tua 90 y cant ar draws lleoliadau cofrestredig yng Nghymru.
N=2,787 o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig

### *Lefel sgiliau Cymraeg*

5.12 Rhoddodd SASS 2023 fewnwelediad i ddarpariaeth iaith lleoliadau cofrestredig a sgiliau iaith eu gweithluoedd priodol – cyflwynir y dadansoddiad hwn yn y siartiau isod.

5.13 Dywedodd 15 y cant o’r lleoliadau cofrestredig a ymatebodd i SASS 2023 mai Cymraeg oedd y brif iaith ar gyfer darparu eu gwasanaeth, gyda 10 y cant yn nodi mai Cymraeg a Saesneg oedd eu prif iaith.

**Ffigur 4: Y brif iaith a ddefnyddir yn y lleoliad i ddarparu gwasanaeth**




Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ymatebion i SASS 2023, a gyflawnodd gyfradd ymateb o tua 90 y cant ar draws lleoliadau cofrestredig yng Nghymru.
N=2,787 o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig

5.14 Yn gyffredinol, adroddwyd bod 21 y cant o’r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig yn rhugl yn y Gymraeg, a dywedodd 21 y cant arall eu bod yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg. Roedd amrywiaeth sylweddol mewn sgiliau Cymraeg ar draws gwahanol fathau o leoliadau, yn amrywio o 27 y cant o weithwyr gofal dydd sesiynol yn rhugl yn y Gymraeg i 12 y cant o weithwyr crèche.

**Ffigur 5: Lefel sgiliau Cymraeg staff**




Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ymatebion i SASS 2023, a gyflawnodd gyfradd ymateb o tua 90 y cant ar draws lleoliadau cofrestredig yng Nghymru.
N=2,787 o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig

***Cymwysterau’r gweithlu***

5.15 Gofynnodd SASS 2023 i leoliadau adrodd ar y cymwysterau sydd gan eu gweithluoedd priodol - mae'r siartiau isod yn rhoi manylion cyfran y gweithwyr sy'n meddu ar bob cymhwyster.

5.16 Dangosodd y dadansoddiad o SASS 2023 mai’r lefel cymhwyster mwyaf cyffredin ymhlith gweithwyr gofal plant oedd lefel tri, sef y lefel cyrhaeddiad uchaf i 47 y cant o weithwyr gofal plant. Dilynwyd hyn gan yr 17 y cant o weithwyr gofal plant yr adroddwyd eu bod yn meddu ar gymhwyster lefel pump, a dywedodd 17 y cant o weithwyr gofal plant nad oedd ganddynt unrhyw gymhwyster perthnasol.

**Ffigur 6: Cymwysterau uchaf gweithiwr gofal plant**




Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ymatebion i SASS 2023, a gyflawnodd gyfradd ymateb o tua 90 y cant ar draws lleoliadau cofrestredig yng Nghymru.
N=2,787 o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig

5.17 Dangosodd dadansoddiad o SASS 2023 mai'r lefel cyrhaeddiad cymhwyster mwyaf cyffredin ar gyfer gweithwyr chwarae oedd lefel tri, sef y lefel cymhwyster uchaf i 39 y cant o weithwyr chwarae. Adroddwyd nad oedd gan 41 y cant o weithwyr chwarae unrhyw gymwysterau perthnasol.

**Ffigur 7: Cymwysterau uchaf gweithiwr chwarae[45]**




Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ymatebion i SASS 2023, a gyflawnodd gyfradd ymateb o tua 90 y cant ar draws lleoliadau cofrestredig yng Nghymru.
N=2,787 o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig

45 Dylid nodi bod cymwysterau lefel 4 yn absennol o'r siart gan nad oes unrhyw gymwysterau lefel 4 sy'n benodol i waith chwarae.

5.18 Gofynnodd Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru (2021) i ymatebwyr yr arolwg adrodd ar lefel eu cymwysterau, a gwelwyd mai cymwysterau lefel dau a thri yn gyffredinol oedd fwyaf cyffredin ymhlith y rhai a arolygwyd.[46]

**Tabl 5: Lefelau cymhwyster gweithlu gwaith chwarae**

| Cymhwyster gwaith chwarae | Gweithiwr chwarae | | Gofal plant/blynyddoedd cynnar | | Gweithwyr proffesiynol eraill | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bob lefel 2 | 45 | *40%* | 6 | *23%* | 15 | *47%* |
| Bob lefel 3 | 48 | *43%* | 17 | *65%* | 13 | *41%* |
| Bob lefel 4+ | 19 | *17%* | 3 | *12%* | 4 | *13%* |

Ffynhonnell: Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru (2021)
N=170 o weithwyr chwarae

5.19 Dangosodd dadansoddiad o SASS 2023 mai'r lefel cyrhaeddiad mwyaf cyffredin ar draws gwarchodwyr plant oedd cymhwyster lefel tri, gyda 50 y cant o warchodwyr plant yn nodi bod ganddynt gymwysterau i'r lefel hon. Adroddwyd hefyd bod 85 y cant o warchodwyr plant yn meddu ar gymwysterau perthnasol eraill.

**Ffigur 8: Cymwysterau gwarchodwr plant yn ôl lefel**




Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ymatebion i SASS 2023, a gyflawnodd gyfradd ymateb o tua 90 y cant ar draws lleoliadau cofrestredig yng Nghymru.
N=2,787 o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig

***Oedran***

5.20 Ni chanfuwyd unrhyw ddata sy'n rhoi dadansoddiad cynhwysfawr o oedran y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru, er bod mewnwelediad o'r cyfweliadau cwmpasu a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil hwn yn awgrymu bod y gweithlu'n gymharol ifanc. Ategir y farn hon gan ganfyddiadau Astudiaeth Ymchwil Chwarae Cymru 2021, a ganfu fod 43 y cant o'r gweithlu gwaith chwarae yn 35 oed neu'n iau, gyda 65 y cant o'r gweithlu yn 45 oed neu'n iau.

[46] Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021. Gweler: [Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021 - Play Wales CYM](). Nid yw'r cyhoeddiad llawn, gyda'r data a'r tablau y cyfeiriwyd atynt, yn cael ei gyhoeddi ar-lein gan Chwarae Cymru.

**Tabl 6: Oedran y gweithlu gwaith chwarae**

| | 16-25 | 26-35 | 36-45 | 46-55 | 56-65 | Dros 65 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymatebwyr | 97 | 72 | 87 | 79 | 36 | 9 |
| Cyfran yr ymatebwyr | 25% | 18% | 22% | 20% | 9% | 0% |

Ffynhonnell: Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021
N=391 o weithwyr chwarae

***Rhyw neu rywedd***

5.21 Er nad oes dadansoddiad cynhwysfawr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn ôl rhyw neu rywedd, mae'n ymddangos bod y data sy'n bodoli ar gyfer is-sectorau penodol o'r gweithlu yn cadarnhau mewnwelediad rhanddeiliaid a gafwyd o'r ymchwil hwn mai menywod yw mwyafrif helaeth y gweithlu. Canfu Arolwg Gweithlu NDNA Cymru 2018-19 fod tua 95 y cant o ymatebwyr yn hunan-adrodd eu bod yn fenywod. Yn y cyfamser, canfu Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021 fod tua 83 y cant o ymatebwyr yn hunan-adrodd eu bod yn fenywod (gweler Tablau 7 ac 8).[47]

**Tabl 7: Rhywedd yn y gweithlu**

| | Dynion | Menywod |
|---|---|---|
| Cyfran o'r gweithlu | 5% | 95% |

Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu NDNA Cymru (2018-19)
N=1,350 (amcangyfrif, yn seiliedig ar 118 o leoliadau blynyddoedd cynnar a arolygwyd)

**Tabl 8: Rhywedd yn y gweithlu gwaith chwarae**

| | Benywaidd | Gwrywaidd | Traws Gwrywaidd | Traws Benywaidd | Rhywedd anneuaidd | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfran yr ymatebwyr | 83% | 16% | * | * | * | * |

Ffynhonnell: Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021
Noder: mae ffigurau â seren yn ymwneud â chategorïau gyda llai nag 1% o ymatebwyr.
N=391 o weithwyr chwarae

***Ethnigrwydd***

5.22 Nid oes unrhyw ddata cynhwysfawr ar sut mae'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru yn rhannu ar draws grwpiau ethnig. Darparodd Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021 fewnwelediad i ethnigrwydd hunan-gofnodedig ymatebwyr, gyda 96 y cant o ymatebwyr yn nodi eu bod yn wyn. Mae hyn yn uwch

[47] Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021. Gweler: Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021 - Play Wales CYM. Nid yw'r cyhoeddiad llawn, gyda'r data a'r tablau y cyfeiriwyd atynt, yn cael ei gyhoeddi ar-lein gan Chwarae Cymru.

nag yw i'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru, lle y nododd 91 y cant eu bod yn wyn yn ôl data Cyfrifiad 2021.[48]

**Tabl 9: Gweithlu gwaith chwarae yn ôl ethnigrwydd**

| | Gwyn | Du/ Affricanaidd / Caribïaidd | Grwpiau ethnig cymysg/lluosog | Arabaidd | Asiaidd | Well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfran yr ymatebwyr | 96% | 1% | 1% | * | * | * |

Ffynhonnell: Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021
Noder: mae ffigurau â seren yn ymwneud â chategorïau gyda llai nag 1% o ymatebwyr.
N=391 o weithwyr chwarae

***Statws anabledd***

5.23 Er na ddaethpwyd o hyd i ffynhonnell ddata gynhwysfawr ar statws anabledd y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae, canfu Arolwg Gweithlu Chwarae Cymru 2021 fod tua 6 y cant o ymatebwyr yn dweud eu bod yn anabl. Mae hyn yn sylweddol is na'r 21 y cant o boblogaeth gyffredinol Cymru a nododd eu bod yn anabl yng Nghyfrifiad 2021.[49]

**Tabl 10: Gweithlu gwaith chwarae yn ôl statws anabledd**

| | Ddim yn anabl | Anabl | Well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymatebwyr | 359 | 22 | 10 |
| Cyfran yr ymatebwyr | 92% | 6% | 3% |

Ffynhonnell: Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021
N=391 o weithwyr chwarae

***Cyflog y gweithlu***

5.24 Gofynnodd SASS 2023 am wybodaeth gan ddarparwyr cofrestredig am lefel y cyflog a delir i'w gweithwyr o'i gymharu â'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Dangosodd y dadansoddiad o'r data fod 64 y cant o weithwyr gofal plant a gweithwyr chwarae'n cael mwy o gyflog na'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn 2023, er bod y gyfran hon yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y math o leoliad, yn amrywio o 93 y cant o weithwyr darpariaeth chwarae mynediad agored yn cael cyflog uwchlaw'r Cyflog Byw Cenedlaethol i 22 y cant o warchodwyr plant.

[48] Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021).
[49] Anabledd yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd, Cymru a Lloegr (Cyfrifiad 2021).

**Ffigur 9: Staff sy’n cael mwy na’r Cyflog Byw Cenedlaethol, yn ôl math o leoliad**




Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ymatebion i SASS 2023, a gyflawnodd gyfradd ymateb o tua 90 y cant ar draws lleoliadau cofrestredig yng Nghymru.
N=2,787 o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig

5.25 Rhoddodd nifer o astudiaethau untro hefyd gipolwg manylach ar gyflogau’r gweithlu, gyda’r arolwg Blynyddoedd Cynnar, a gynhaliwyd yn 2022 yng Nghymru, yn canfod bod cyflog cyfartalog staff yn amrywio o £7.80 yr awr i staff heb gymhwyso, i £10.90 yr awr i oruchwylwyr, rheolwyr, neu arweinwyr. Yng ngoleuni’r pwysau chwyddiant presennol, disgwylir y gallai cyflog gweithwyr fod yn faes sy’n esblygu, gan bwyseisio gwerth cael amcangyfrifon cyfredol o gyflogau gweithwyr.

**Tabl 11: Cyfradd gyfartalog cyflog yn ôl hynafedd staff**

| Graddfa tâl | Nifer yr ymatebion | £ yr awr ar gyfartaledd |
|---|---|---|
| Goruchwylwyr, Rheolwyr neu Arweinwyr | 263 | £10.90 |
| Staff wedi cymhwyso ar Lefel 3 sector-berthnasol (heblaw am oruchwylwyr) | 255 | £9.30 |
| Staff wedi cymhwyso ar Lefel 2 sector-berthnasol | 157 | £8.70 |
| Staff heb gymwysterau | 117 | £7.80 |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddoedd Cynnar (2022)
N=323 o leoliadau gofal plant a chwarae

5.26 Canfu Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021 mai'r cyflog cyfartalog i weithwyr chwarae llawn amser yw £10.76 yr awr. Adroddodd yr arolwg hefyd ar amrywiad mewn cyflog ar draws lefelau hynafedd, a chyflogaeth ran-amser yn erbyn llawn amser.

**Tabl 12: Cyfradd gyfartalog cyflog yn ôl math o wasanaeth**

| | Gweithiwr chwarae | Gofal plant/blynyddoedd cynnar | Gweithwyr chwarae proffesiynol eraill |
|---|---|---|---|
| Nifer o ymatebwyr | 17 | 15 | 8 |
| Cyflog fesul awr ar gyfartaledd | £10.76 | £10.61 | £14.17 |

Ffynhonnell: Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021
N=40 o weithwyr chwarae llawn amser

***Nifer a math o swyddi gwag***

5.27 Darparodd data SASS 2023 fewnwelediad i lefel y swyddi gwag a wynebir gan leoliadau cofrestredig yng Nghymru. Ar draws yr holl ddarparwyr gofal plant a chwarae, dangosodd y dadansoddiad gyfradd swyddi gwag o tua naw y cant, er bod cyfraddau swyddi gwag yn amrywio'n sylweddol ar draws mathau o leoliadau; o 25 y cant ar gyfer gwarchodwyr plant a lleoliadau crèche i saith y cant ar gyfer lleoliadau gofal dydd llawn.[50]

**Ffigur 10: Swyddi gwag fel cyfran o staff a gyflogir, yn ôl math o leoliad**




Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ymatebion i SASS 2023, a gyflawnodd gyfradd ymateb o tua 90 y cant ar draws lleoliadau cofrestredig yng Nghymru.
N=2,787 o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig

5.28 Canfu'r Arolwg Blynyddoedd Cynnar (2022) bod 37 y cant o 327 o leoliadau a ymatebodd wedi dweud bod ganddynt swyddi gwag.

[50] Mae swyddi gwag ar gyfer gwarchodwyr plant yn cyfeirio at staff cymorth gwarchodwyr plant, gan gynnwys cynorthwywyr.

### *Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer pobl ifanc*

5.29 Bydd y boblogaeth o bobl ifanc yn y dyfodol hefyd yn sbardun allweddol i'r galw am ofal plant yn y dyfodol. Mae'r siart isod yn cyflwyno prif amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2020 SYG dros y pum mlynedd nesaf ar gyfer Cymru ar draws tri grŵp oedran: 0 i 4 oed, 5 i 9 oed, a 10 i 14 oed. O'i gymharu â 2023, rhagamcanodd SYG y byddai'r boblogaeth ar gyfer y grŵp oedran 0 i 4 yn aros yn weddol wastad hyd at 2028, sef tua 146,000, y byddai'r grŵp oedran 5 i 9 oed yn gostwng 22,000 i tua 153,000 yn 2028, ac y byddai'r grŵp oedran 10-14 yn gostwng 10,000 i tua 179,000 erbyn 2028. Mae amcanestyniadau poblogaeth 2018 sy'n benodol i oedran ar gyfer Cymru hefyd yn cael eu cyhoeddi gan StatsCymru.[51]

**Ffigur 11: Prif amcanestyniadau poblogaeth SYG ar gyfer Cymru, yn ôl band oedran**




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

[51] Amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2018 ar gyfer Cymru. Gweler: [Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)]

## 6. Casgliadau

6.1 Mae amrywiaeth o ffynonellau data sy’n rhoi cipolwg ar y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae, yn ogystal â nodweddion y darparwyr gwasanaeth y maent yn gweithio iddynt a’r plant y maent yn eu cefnogi.

6.2 Mae rhai elfennau o gasglu data yn y sector gofal plant a chwarae cofrestredig wedi’u canoli ac yn gymharol gynhwysfawr o ran data, gyda phob darparwr cofrestredig neu’r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu nodi mewn un lle (h.y., cofrestr AGC, SASS), gyda’r setiau data hyn felly’n allweddol i ddeall cyflwr sylfaenol y galw am wasanaethau a’r gweithlu gofal plant a chwarae. Mae’r data allweddol a ddarperir drwy’r ffynonellau hyn yn cynnwys y math o leoliad, y lleoliad daearyddol, ac iaith gweithredu, yn ogystal â data ar sgiliau iaith y gweithlu a lefel cymhwyster.

6.3 Mae data ar nodweddion demograffig ac economaidd-gymdeithasol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn llai cyflawn, gyda’r data sydd ar gael yn gymharol wasgaredig ar draws nifer o wahanol gyhoeddiadau untro. Er gwaethaf hyn, mae sawl sefydliad wedi ceisio deall eu gwahanol weithluoedd trwy gynnal a dadansoddi eu harolygon eu hunain o ddarparwyr neu’r gweithlu (e.e., NDNA, Chwarae Cymru). Gall arolygon poblogaeth ar raddfa fawr megis yr Arolwg o’r llafurlu hefyd roi rhywfaint o fewnwelediad i’r gweithlu ar lefel genedlaethol, er y gellir herio cadernid y canlyniadau hyn.

6.4 Bydd senarios polisi yn y dyfodol, newid demograffig, a thueddiadau gweithlu yn allweddol i ragamcanu cyflenwad a galw gweithlu yn y dyfodol. Mae'r polisïau allweddol a nodwyd y dylid eu cynnwys yn yr amcanestyniadau yn cynnwys cynlluniau cyfredol sy’n ymwneud â Dechrau’n Deg, y Cynnig Gofal Plant, a chryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gyda’r model hefyd yn addas ar gyfer datblygu polisïau yn y dyfodol. Bydd newidiadau rhagamcanol yn y boblogaeth hefyd yn cael eu cynnwys yn y model, ochr yn ochr â ffactorau a allai gyfyngu ar y cyflenwad o weithwyr (e.e. cymhwyster, sgiliau Cymraeg).

**Bylchau data a nodwyd**

6.5 Er gwaethaf bodolaeth data ar sawl agwedd ar y gweithlu, nodwyd y bylchau data canlynol, y bydd gwaith maes Cam 2 yn mynd i’r afael â nhw:

- Er gwaethaf rhai ymdrechion unwaith ac am byth i wneud hynny ar gyfer segmentau penodol o’r sector gofal plant a gwaith chwarae (h.y., lleoliadau chwarae, meithrinfeydd), mae diffyg casglu data cynhwysfawr ar

ddimensiynau demograffig ac economaidd-gymdeithasol allweddol sydd o ddiddordeb i unigolion yn y gweithlu; yn arbennig, yn ôl oedran, rhywedd, rhyw, ethnigrwydd, lefel cyflog (dealltwriaeth fanylach na'r hyn a ddarperir gan SASS), statws anabledd, a rôl swydd.

- Er bod data cymharol gynhwysfawr yn cael ei ddarparu drwy AGC ar y capasiti gwasanaeth mwyaf a gynigir drwy ddarpariaeth gwasanaeth cofrestredig, mae llai o ddata ar gael ar y ddarpariaeth gwasanaeth wirioneddol, sy'n adlewyrchu'r galw presennol yn well. Bydd y bwlch hwn yn y data yn debygol o gyfyngu ar allu'r modelu a gynhaliwyd yng Ngham 2 i drosi unrhyw newidiadau i'r galw neu bolisïau sy'n wynebu'r galw i ofynion y gweithlu a chapasiti sbâr o fewn y sector.
- Yn gysylltiedig â'r uchod, byddai modelu effaith ehangu'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg, neu unrhyw wasanaeth gofal plant arall a ariennir, yn gofyn am ddealltwriaeth o sut y byddai rhieni'n ymateb i newidiadau polisi o ran y nifer a'r math o wasanaethau y mae galw amdanynt. Mae hyn oherwydd y gallai newidiadau o'r fath i bolisïau amrywio o ran lefel eu defnydd yn ogystal â'r graddau y gallent ddisodli darpariaeth o fathau eraill o ddarpariaeth gofal plant. Yn absenoldeb data o'r fath, efallai y bydd angen gwneud rhagdybiaethau symleiddio.
- Mae darpariaeth anghofrestredig y tu allan i'r cwmpas at ddibenion amcanestyniadau gweithlu Cam 2, ond mae'n werth nodi, er bod cofrestr AGC a SASS yn darparu mewnwelediad sylweddol i ddarpariaeth a'r gweithlu gofal plant a chwarae cofrestredig, mae data'n fwy cyfyngedig yn achos darparwyr anghofrestredig. O ystyried y mewnwelediad cyfyngedig i ddarpariaeth anghofrestredig, nid yw'n glir i ba raddau y bydd y data cyfyngedig ar ddarpariaeth anghofrestredig, a'r ddealltwriaeth gyfyngedig o'r rhyngddibyniaethau rhwng darpariaeth anghofrestredig a darpariaeth gofrestredig, yn effeithio ar y gallu i ragamcanu'n gywir y galw am ddarpariaeth gofrestredig.

# 7. Argymhellion ar gyfer Cam 2

### Cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid

7.1 Yn ystod Cam 2, bydd arolwg ar-lein yn cael ei ddylunio a'i ddosbarthu i'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae a rheolwyr lleoliadau i ddarparu data pellach ar nodweddion a dosbarthiad y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Bydd strwythur a chynnwys yr arolwg yn cael eu llywio gan natur y bylchau data a nodwyd yn ystod Cam 1 yn dilyn cyfweliadau â rhanddeiliaid a'r adolygiad o ddata, gyda ffocws ar fynd i'r afael â chwestiynau ymchwil allweddol y prosiect.

7.2 O ystyried y bylchau data a nodwyd uchod, bydd yr arolwg a chyfweliadau a/neu grwpiau ffocws yn cael eu defnyddio i gasglu data ar y canlynol:

- Cwestiynau rhagarweiniol i ddeall natur y lleoliad o fewn y sector gofal plant a gwaith chwarae, gan gynnwys y math o leoliad, prif iaith gweithredu, a lleoliad. Er bod y pwyntiau data hyn eisoes yn cael eu casglu trwy gofrestr AGC a SASS, bydd yn ein galluogi i groes-dablu dulliau casglu data eraill gyda nodweddion darparwyr i ddarparu mewnwelediad dyfnach.
- Cwestiynau sy'n rhoi cipolwg ar nodweddion demograffig ac economaidd-gymdeithasol y gweithlu. Bydd y cwestiynau'n canolbwyntio ar y prif fylchau a nodwyd, gan gynnwys oedran y gweithiwr, rhywedd/rhyw, ethnigrwydd, lefelau cyflog, statws anabledd, a rôl swydd. Er bod y rhan fwyaf o'r opsiynau ar gyfer rhannu'r arolwg ar hyn o bryd yn ymwneud â dosbarthu'r holiadur i leoliadau gofal plant a chwarae, byddwn hefyd yn archwilio opsiynau ar gyfer lledaenu'r arolwg i rannau o'r gweithlu yn uniongyrchol er mwyn casglu gwybodaeth ychwanegol.
- Deall y defnydd gwirioneddol o ddarparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeillio cyfradd defnydd a fydd yn cael ei defnyddio yn y modelu i drosi data uchafswm lleoedd i alw gwirioneddol.
- Mewnwelediad ansoddol i'r heriau a wynebir gan ddarparwyr gofal plant a chwarae, yn arbennig unrhyw faterion recriwtio neu gadw a wynebir gan leoliadau a allai gyfyngu ar gyflenwad y gweithlu yn y dyfodol (e.e., a achosir gan brinder ymgeiswyr â chymwysterau digonol neu ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg, cyflog annigonol). Bydd cwestiynau'n cael eu hanelu at ddeall maint ac achosion y problemau hyn, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â nhw yn y dyfodol.

7.3 Bydd yr arolwg yn cael ei ddosbarthu i sampl mor fawr ac eang o leoliadau a’r gweithlu ag sy’n bosibl er mwyn gwneud y mwyaf o ansawdd y mewnwelediad y gallwn ei gasglu. Mae cyfweliadau Cam 1 wedi agor rhai trywyddau addawol ar gyfer dosbarthu’r arolwg yn uniongyrchol i leoliadau, gan gynnwys drwy gronfa ddata AGC o gysylltiadau a thrwy sefydliadau aelodaeth y diwydiant gofal plant a gwaith chwarae. Nid ydym wedi nodi unrhyw lwybrau addawol ar gyfer dosbarthu’r arolwg yn uniongyrchol i’r gweithlu, er y byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer gwneud hynny yn gynnar yng Ngham 2. Byddwn yn ceisio gwneud y sampl mor gynrychioliadol â phosibl trwy ddosbarthu’r arolwg ar draws pob math o leoliad allweddol (drwy’r cyrff aelodaeth perthnasol), gan amlygu unrhyw gyfyngiadau yn y sampl i’r graddau y mae bylchau.

7.4 Er mwyn cynyddu cyfraddau ymateb a maint y sampl, bydd yr arolwg yn cael ei ddosbarthu gyda’r elfennau canlynol:

- Ei ddarparu yn Gymraeg a Saesneg trwy ddolen ar-lein gyfleus i'r holiadur.
- Bydd holiaduron mor ysgafn eu cyffyrddiad â phosibl, gan roi blaenoriaeth i'r wybodaeth allweddol yn unig. Byddwn yn cynnal profion helaeth ar y rhyngwyneb defnyddiwr i sicrhau ei fod yn addas at y diben.
- Bydd yr arolwg ar agor am 4 wythnos i ddechrau. Byddwn yn anfon e-byst dilynol ysbeidiol drwy gydol y cyfnod i annog ymatebion, gyda’r opsiwn o ymestyn y ffenestr pe bai’r gyfradd ymateb yn isel.

7.5 Bydd yr arolwg yn cael ei gynllunio yn unol â chanllawiau GSR yn ystod camau cynnar Cam 2 cyn cytuno ar y fersiwn derfynol gyda Llywodraeth Cymru.

7.6 Bydd ail ran y cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid Cam 2 yn canolbwyntio ar ymgysylltu’n uniongyrchol â darparwyr a lleoliadau ledled Cymru. Fodd bynnag, bydd y gydran ymchwil hon yn dibynnu ar angen dadansoddol y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ganlyniadau rhagarweiniol yn ystod Cam 2. Mae’n debyg y bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cynnwys grŵp ffocws gyda darparwyr ac aelodau o'r gweithlu sydd â'r potensial i'w ategu drwy gyfweliadau, os oes angen. Cytunir ar yr union gwestiynau ymchwil gyda Llywodraeth Cymru.

7.7 Bydd recriwtio cyfranogwyr yn cael ei wneud drwy'r arolwg drwy ychwanegu cwestiwn ychwanegol ynghylch a hoffai'r ymatebwr gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil ansoddol pellach. Yna gallwn ddewis unigolion i gwmpasu

gwahanol fathau o leoliadau, rhanbarthau daearyddol, neu gyfrwng darpariaeth i ffurfio sampl llawn gwybodaeth.

**Amcanestyniadau o'r galw am wasanaethau gofal plant a chwarae a'r gweithlu**

7.8 Yn ystod Cam 2, byddwn yn adeiladu model hyblyg a fydd yn rhagamcanu nifer y lleoedd a'r staff sydd eu hangen i gyflenwi ymrwymiadau gofal plant a gwaith chwarae dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys nodweddion perthnasol y lleoedd a'r gweithlu. Bydd y model rhagamcanu'n cael ei ddatblygu mewn Excel, gyda thybiaethau a data y gellir eu diweddaru'n hawdd, gan ganiatáu i Lywodraeth Cymru adnewyddu'r dadansoddiad mewn amser real.

7.9 O ystyried yr ansicrwydd ynghylch y galw am wasanaethau gofal plant a chwarae yn y dyfodol, byddwn yn seilio'r amcanestyniadau ar ystod o senarios enghreifftiol a allai gael eu gwireddu, er mwyn rhoi dealltwriaeth i Lywodraeth Cymru o'r ystod o ganlyniadau posibl ar gyfer y gweithlu.

7.10 Isod, crynhoir yn fanwl ein cynnig ar gyfer mewnbynnau model, senarios ac allbynnau.

***Mewnbynnau model***

7.11 Y man cychwyn ar gyfer amcanestyniadau o'r galw am wasanaethau gofal plant a chwarae a'i weithlu fydd datblygu ciplun o'i gyflwr presennol (h.y. y llinell sylfaen). Bydd hyn yn gofyn am ddata ar nifer y lleoedd, a maint y gweithlu, wedi'u dadansoddi ar draws y mathau allweddol o ddiddordeb (a grynhoir yn Atodiad C).

7.12 Rhagwelwn y bydd y llinell sylfaen yn cynnwys yr elfennau canlynol:

**Tabl 13: Dull o fodelu galw sylfaenol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae**

| Elfen llinell sylfaen | Dull |
|---|---|
| Nifer y gweithwyr gofal plant a gwaith chwarae:<br>• Yn ôl lleoliad<br>• Yn ôl y lleoliad daearyddol<br>• Yn ôl cymhwyster<br>• Y gallu i siarad Cymraeg | Disgwyliwn i hyn ddeillio i raddau helaeth o set ddata SASS, sydd fel y disgrifir uchod, yn cynnwys dadansoddiadau ar gyfer y lleoliadau, y lleoliadau daearyddol, y gallu i siarad Cymraeg, a chyrhaeddiad cymwysterau.<br><br>Byddai hyn hefyd yn pennu i ba raddau y mae'r data'n ddigon gronynnog fel bod y dadansoddiadau a nodir yn drawsbynciol (e.e., yn gallu gweld cymwysterau yn ôl lleoliad). Os na fydd lefel ronynnedd o'r fath ar gael, efallai y bydd angen cynnal y dadansoddiad ar lefel briodol o gydgrynhoi ac yna defnyddio cyfrannau i amcangyfrif y dadansoddiadau sy'n ymhlyg. |

| | |
|---|---|
| Dadansoddiadau gweithwyr ychwanegol y bydd angen eu harchwilio ymhellach:<br>• Oedran<br>• Rhywedd<br>• Ethnigrwydd<br>• Cyflog | Fel y trafodwyd yn adran 5, mae diffyg data cynhwysfawr ar ddemograffeg gweithwyr mewn lleoliadau gofal a chwarae. Mae cyhoeddiadau untro yn bodoli a fydd yn cael eu defnyddio i ddatblygu dadansoddiadau perthnasol lle bo modd. Byddwn yn ceisio defnyddio gwaith maes Cam 2 i ategu'r dystiolaeth lle bo modd. |
| Cyfrifo ar gyfer gweithwyr/darparwyr heb eu cynnwys yn SASS | Gan gydnabod nad yw pob darparwr cofrestredig yn cwblhau'r arolwg SASS, pe bai tystiolaeth ar gael, byddwn yn ceisio rhoi cyfrif am hyn drwy ddarparu cynnydd yn nifer y gweithwyr yn arolwg SASS trwy ddeall cyfradd ymateb darparwyr cofrestredig i'r arolwg. Gwneir hyn drwy driongli gwybodaeth o dystiolaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ar hyn o bryd, unrhyw wybodaeth a ddarperir gan arbenigwyr allweddol yn y sector, a'r gwaith maes yng Ngham 2. |
| Nifer y lleoedd gofal plant a chwarae:<br>• Yn ôl math o leoliad<br>• Yn ôl y lleoliad daearyddol<br>• Yn ôl iaith gweithredu. | Rydym yn rhagweld y byddwn yn defnyddio cronfa ddata AGC fel y ffynhonnell graidd ar gyfer y metrigau hyn a byddwn yn ei hategu â chronfa ddata SASS lle mae bylchau. Mae'r cyfweliadau wedi tynnu sylw at y posibilrwydd o anghysondebau rhwng y setiau data, felly byddwn yn cymryd agwedd gyfannol at driongli gwybodaeth rhwng y ffynonellau i lunio amcangyfrifon gwybodus. |
| Cymarebau lleoedd i weithwyr | Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth uchod i gyfrifo'r gymhareb lleoedd i weithwyr, gyda dadansoddiadau perthnasol lle bo modd. Gellir defnyddio'r cymarebau hyn i feincnodi capasiti ac effeithlonrwydd adnoddau, er enghraifft ar lefel leol. |

7.13 Disgwyliwn y gellir dod o hyd i lawer o'r data ar gyfer deall cyflwr presennol y galw am wasanaethau gofal plant a chwarae o ddata lefel darparwr yng nghofrestr AGC a ffurflenni SASS, gan gynnwys y dadansoddiadau cynhwysfawr (neu bron yn gynhwysfawr, yn achos SASS) o leoedd a'r gweithlu ar draws mathau o leoliadau, graddau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac yn ôl awdurdod lleol.

7.14 Er mwyn sefydlu ciplun cyfredol o'r gweithlu o safbwynt nodweddion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiadau uchod, megis nodweddion demograffig ac economaidd-gymdeithasol gweithwyr, byddwn yn defnyddio cyfuniad o (i) ddata a gasglwyd drwy arolwg Cam 2 , a (ii) data o arolygon blaenorol o leoliadau a gweithlu gofal plant a chwarae. O ystyried bod yr arolygon hyn fel arfer ond yn derbyn ymatebion gan is-set o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae cyffredinol,

mae'n debygol y bydd gofyn i ni asesu a oes modd allosod canfyddiadau'r sampl i'r boblogaeth lawn.

***Senarios modelu***

7.15 Fel y soniwyd eisoes, mae ansicrwydd ynghylch y galw a'r cyflenwad o wasanaethau gofal plant a chwarae i'r dyfodol, ac mae'r un peth yn wir am ei weithlu. Byddwn felly'n modelu cyfres o senarios sy'n dangos sut y bydd y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae'n datblygu yn y dyfodol ar sail canlyniadau amrywiol o ran galw yn y dyfodol. Fel y trafodwyd yn adran 5, bydd y data cyfyngedig ar y galw am ofal plant a lleoedd chwarae yn cyfyngu ar y gallu i drosi effaith polisïau ymatebol a newidiadau'n yrwyr cyffredinol o alw am gapasiti a gofynion y gweithlu yn y dyfodol. Lle bo'n bosibl, byddwn yn ceisio gwneud rhagdybiaethau rhesymol i ganiatáu cynnal dadansoddiad, a fydd yn cael ei ategu gan wybodaeth a gasglwyd o waith maes Cam 2.

7.16 Bydd y ffactorau galw sy'n sail i'r senarios hyn yn cynnwys ymrwymiadau a nodau polisi presennol a phosibl, newidiadau demograffig, a thueddiadau'r gweithlu.[52] Byddwn yn mireinio'r senarios i'w harchwilio yn y modelu mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru yn ystod Cam 2, er y cyflwynir cynnig cychwynnol ar gyfer senarios isod:

- **Senarios a thargedau polisi.** Bydd defnyddwyr yn gallu newid rhwng gwahanol senarios polisi er mwyn rhagamcanu effaith ymrwymiadau neu nodau polisi presennol neu bosibl ar alw am weithlu. Mae senarios polisi i'w cynnwys yn y modelu yn cynnwys:
    - **Ehangu Dechrau'n Deg (cam cyntaf ac ail gam).** Gan ddechrau ym mis Medi 2022, targedwyd cam cyntaf ehangiad Dechrau'n Deg i ddarparu cymorth (ar draws pob un o'r pedair elfen o Dechrau'n Deg) i 2,500 o blant ychwanegol rhwng 0 a 4 oed (rhagorwyd ar y targed hwn bellach), gyda'r rhai cymwys yn cael 12.5 awr o ofal plant yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn.[53] Bydd ail gam ehangiad Dechrau'n Deg yn darparu cymorth gofal

[52] Mae'n werth nodi nad yw'r ffactorau a fodelir yn rhestr gyfyngedig o'r holl ffactorau sy'n dylanwadu ar y galw am ofal plant, gyda ffactorau posibl eraill yn cynnwys, er enghraifft: cost gofal plant, incwm rhieni, a pholisïau cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â gofal plant.
[53] Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn raddol, canllawiau. Gweler: [Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn raddol | LLYW.CYMRU]

plant ychwanegol i fwy na 9,500 o blant rhwng 2 a 3 oed yn ystod 2023-24 a 2024-25, ar sail debyg i'r cam cyntaf.[54]

  - **Targedau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.** Byddwn yn ychwanegu senarios sy'n adlewyrchu'r effaith ar y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae, yn seiliedig ar dargedau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Fel rhan o Cymraeg 2050, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg o 150 o gylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg o fewn 10 mlynedd i gyhoeddi'r ddogfen Cymraeg 2050 (gyda darparwyr gofal meithrin yn dod o fewn diffiniad AGC o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig), gyda phob un awdurdod lleol yn gosod eu targedau eu hunain ar gyfer darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.
  - **Senarios polisi enghreifftiol ar gyfer y dyfodol**. Byddwn hefyd yn darparu senarios i ddangos effaith agweddau ar bolisi a allai newid yn y dyfodol. Gallai'r senarios i'w harchwilio gynnwys, er enghraifft, effaith cynnydd neu ostyngiad mewn darpariaeth gofal plant a chwarae (o ran nifer y lleoedd ac oriau'r ddarpariaeth) ar y gweithlu.

- **Newid demograffaidd.** Byddwn yn defnyddio amcanestyniadau poblogaeth sefydledig, fel y rhai a ddatblygwyd gan SYG ar gyfer grwpiau oedran ifanc yng Nghymru, i amcangyfrif sut y byddai angen i'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae esblygu i ateb y galw posibl am wasanaethau. Gellid gwneud hyn yn ymarferol drwy amcangyfrif faint o weithwyr fyddai eu hangen i gynnal y cymarebau presennol o weithwyr fesul lle. Lle bo modd amcangyfrif yn gadarn, byddwn hefyd yn cynnwys amcanestyniadau yn seiliedig ar nodweddion demograffig megis ethnigrwydd.
- **Tueddiadau'r gweithlu.** Er bod ffactorau ochr-gyflenwad sy'n effeithio ar y gweithlu yn gyffredinol yn fwy heriol i'w modelu, bydd y modelu yn archwilio i ba raddau y gallai ffactorau o'r fath gyfyngu ar y gweithlu yn y dyfodol. Byddai newidynnau allweddol a allai gyfyngu ar gyflenwad y gweithlu yn cynnwys cyflogau, gofal plant a chymwysterau gwaith chwarae, a sgiliau iaith Gymraeg.

7.17 Dylid nodi nad yw pennu effaith newidiadau polisi ar alw'r gweithlu yn syml, o ystyried y potensial ar gyfer effeithiau dadleoli rhwng gwahanol fathau o

[54] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru. Gweler: [Rhaglen flaenllaw i ehangu Dechrau'n Deg yn rhagori ar y targed yn y cam cyntaf | LLYW.CYMRU]

ddarpariaeth gofal plant neu waith chwarae. Er enghraifft, efallai na fydd lle wedi'i ariannu'n ychwanegol drwy Dechrau'n Deg yn ychwanegu at nifer y gweithwyr os yw'n arwain at newid darpariaeth o ofal a ddarperir drwy warchodwr plant a ariennir yn breifat. Bydd angen gwneud rhagdybiaethau ynghylch effaith pob polisi ar fewnlifoedd newydd i ddarpariaeth gofal plant a chwarae, o gymharu â lleoedd sy'n cynhyrchu dadleoli o fath arall o ofal plant.

**Allbynnau modelu**

7.18 Byddwn yn datblygu dangosfwrdd yn dangos yr amcanestyniadau canlyniadol mewn ffordd glir a deniadol. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r gwasanaeth gofal plant a chwarae a ragwelir a'r galw am y gweithlu dros y 5 mlynedd nesaf, fel y caiff ei fesur gan nifer y lleoedd a maint y gweithlu, ar draws llawer o'r mathau allweddol o ddiddordeb.

7.19 Yn fwy penodol, disgwyliwn i'r amcanestyniadau gynnwys yr allbynnau canlynol:

- Galw am leoedd gofal plant a chwarae, yn ôl:
    - Math o leoliad.
    - Awdurdod lleol.
    - Iaith gweithredu'r lleoliad.
- Y gweithlu gofal plant a chwarae, yn ôl:
    - Math o leoliad.
    - Awdurdod lleol.
    - Cyfran o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

7.20 Bydd delweddu darnau allweddol o ddata yn cael eu datblygu drwy offeryn data rhyngweithiol a all alluogi Llywodraeth Cymru i archwilio'r data mewn ffordd sy'n apelio'n weledol. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn fwyaf defnyddiol ar gyfer data daearyddol, y gellir eu harddangos fel mapiau gwres gofodol, neu i ddangos yr ystod o ganlyniadau posibl (er enghraifft, trwy ddefnyddio siartiau ffan).

# Atodiad A: Rhestr o randdeiliaid a gymerodd ran mewn cyfweliadau cwmpasu

Cyfranogwyr yn gweithio o fewn Llywodraeth Cymru

- Nifer y swyddogion a gyfwelwyd: 8
- Nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd: 6
- Rolau a meysydd gwaith swyddogion Llywodraeth Cymru:
    - Swyddogion ymchwil ac ymchwil cymdeithasol
    - Tîm polisi Gofal Plant a Chwarae
    - Ystadegwyr.

Cynrychiolwyr sefydliadau rhanddeiliaid allanol

- AWARE
- Arolygiaeth Gofal Cymru, AGC
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Mudiad Meithrin
- NDNA
- PACEY
- Chwarae Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru

## Atodiad B: Canllaw pwnc cyfweliadau ar gyfer cyfweliadau cwmpasu allanol

**Cyflwyniad**

Bore/prynhawn da a diolch am gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliad hwn. Sut ydych chi heddiw?

Rydym yn gweithio i'r cwmni ymchwil Alma Economics, ac rydym wedi cael ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i fapio cyflwr presennol gweithlu'r sector, gan gynnwys recriwtio a chadw, nodweddion y gweithlu megis sgiliau iaith Gymraeg a phroffil demograffig yn ogystal â ffynonellau data posibl sydd ar gael, y byddwn yn eu defnyddio drwy fodelu i geisio sefydlu amcanestyniadau i'r dyfodol. Bydd ein trafodaeth heddiw yn para hyd at 60 munud a bydd yn ein helpu i ddeall y realiti yn y sector a dyna pam rydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol fel chi i lywio'r ymchwil.

Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol, bydd unrhyw ddata personol a ddarperir yn cael ei ddileu gennym ni (Alma Economics), a bydd unrhyw ddata crai yn ddienw cyn cael ei rannu â LIC, ac eithrio os byddwch yn darparu manylion cyswllt at ddibenion rheoli ffynonellau data. Bydd rhestr gyflawn o'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn cael ei rhannu â Llywodraeth Cymru. Os oes cwestiwn nad ydych eisiau ei ateb, nid oes rheidrwydd arnoch i wneud hynny. A oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cyfranogiad cyn i ni ddechrau?

*(Opsiynol) A fyddech chi'n hapus i mi drawsgrifio ein cyfweliad i gefnogi'r dadansoddiad diweddarach?*

**Cwestiynau penodol i'r sefydliad**

1. I ddechrau, a allwch chi ddisgrifio mewn ychydig eiriau eich rôl a'ch gweithgareddau o ddydd i ddydd o ran y sector gofal plant a gwaith chwarae?
2. Pa fath o sefydliad neu leoliad ydych chi'n gweithio ynddo? Beth yw swyddogaethau a thasgau allweddol eich sefydliad?
    a. Allech chi fynd â mi drwy ei nodweddion allweddol, fel aelodaeth (e.e. sefydliadau, darparwyr, unigolion) a pha fathau o leoliadau rydych chi'n gweithio gyda nhw?
    b. Pa gwmpas daearyddol y mae eich sefydliad yn ei gyflawni?
    c. A ydych yn cadw unrhyw ddata ar eich cyrff aelodaeth a/neu sefydliadau?

**Strwythur a heriau yn y sector gofal plant a chwarae**

3. Pa lwyddiannau a gyflawnwyd yn y sector dros y 5 mlynedd diwethaf? Canolbwyntiwch ar sut mae hyn yn berthnasol i ddatblygiadau (cadarnhaol) yn y gweithlu.

4. Beth yw'r prif heriau neu bwysau sy'n wynebu'r sector? Pa heriau sy'n ymwneud yn benodol â'i weithlu?

5. A yw'r sector yn gallu ymdopi â'r galw presennol am ddarpariaeth gofal plant a chwarae? Os nad yw, beth fyddech chi'n ei ddweud yw'r prif fylchau yn y ddarpariaeth bresennol?

> *(Opsiynol): A yw hyn yr un mor berthnasol ar draws holl ardaloedd daearyddol Cymru?*
>
> *(Opsiynol): A yw'r sector yn gallu darparu digon o leoliadau a staff Cymraeg?*
>
> *(Opsiynol): Sut mae darparwyr yn ymdopi â galw gormodol (os yw'n berthnasol)?*

**Potensial i'r dyfodol ac amcanestyniadau**

6. Yn y blynyddoedd i ddod, beth yn eich barn chi fydd y prif gyfleoedd ar gyfer y sector gofal plant a chwarae yng Nghymru?

*7. (Opsiynol) A ydych chi'n rhagweld unrhyw heriau yn y dyfodol yn sgil polisïau presennol neu bolisïau'r dyfodol?*

8. Yn eich barn chi, beth yw'r rhwystrau mwyaf i sicrhau amrywiaeth yng ngweithlu gofal plant a chwarae Cymru?

9. Mae LIC wedi gosod targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. O ystyried y rhan y mae darpariaeth gofal plant a chwarae'r blynyddoedd cynnar yn ei chwarae wrth gyrraedd y nod hwn, beth yw'r prif rwystrau?

*10. (Opsiynol): Yng nghamau ein prosiect yn y dyfodol, byddwn yn cynnal cyfweliadau â darparwyr gofal plant a chwarae ledled Cymru yn ogystal â sefydlu model ar gyfer datblygiadau gweithlu yn y dyfodol. Beth ydych chi'n meddwl y dylem ganolbwyntio arno'n benodol? A oes unrhyw gwestiynau ymchwil sy'n arbennig o berthnasol yn eich barn chi?*

**Monitro a Chwmapsu Data**

11. Pa ddata sydd gennych chi ar gael am y gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru? Mae gennym ddiddordeb mewn data a gasglwyd gan eich sefydliad yn ogystal ag unrhyw ffynonellau data allanol eraill. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y canlynol: demograffeg y gweithlu (e.e. rhywedd, oedran, ac ati), anabledd, sgiliau iaith Gymraeg, amrywiaeth, rôl broffesiynol, lefel cymhwyster, cyflogau, lleoliad daearyddol, nifer y swyddi gwag.

> *(Opsiynol): Os yw hon yn ffynhonnell newydd, a allwn gael mynediad at y data hwn?*
>
> *(Opsiynol): Sut mae'r data hwn yn cael ei gasglu? Pa mor aml y cyhoeddir hwn?*

12. A ydych yn ymwybodol o unrhyw ddata neu dystiolaeth ar heriau gweithlu a recriwtio yn y sector?

13. A ydych yn ymwybodol o unrhyw waith casglu data parhaus neu arfaethedig yn y dyfodol a allai ein helpu i nodi tueddiadau yng ngweithlu Cymru a/neu botensial i'r dyfodol?

*(Opsiynol): Os felly, pwy sy'n casglu'r data hwn? Pa ddangosyddion? Pa mor aml?*

*(Opsiynol): A ydych chi (neu a fyddwn ni) yn debygol o allu cyrchu'r data hwn?*

14. A ydych yn ymwybodol o unrhyw ragolygon presennol ar nifer y plant sydd angen darpariaeth gofal plant neu chwarae?

15. Rydym yn bwriadu adeiladu model a fydd yn rhagamcanu cyfansoddiad y gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru yn y dyfodol. Pa gwestiynau allweddol yr hoffech i'r model hwn eu hateb, pe bai'n bosibl?

16. A oes unrhyw fylchau eraill yn y data sydd ar hyn o bryd yn eich atal rhag ateb cwestiynau pwysig am eich gwaith yn y sector?

**<u>Ôl-drafod</u>**

17. A oes unrhyw faterion eraill y credwch y byddai'n werthfawr inni eu trafod nad ydym wedi eich holi amdanynt?

18. Fel y soniwyd ar ddechrau ein cyfweliad, rydym yn cynnal cyfweliadau â nifer o randdeiliaid yn y sector gofal plant a chwarae. A oes unrhyw gyrff neu sefydliadau y byddech yn argymell i ni estyn allan atynt ar gyfer yr ymchwil hwn yn y dyfodol?

## Atodiad C: Prif ddimensiynau o ddiddordeb ar gyfer mapio data gofal plant

- **Gweithlu**
  Gan gynnwys dadansoddiad disgrifiadol o nodweddion allweddol y gweithlu gofal plant a chwarae, ac archwilio unrhyw berthnasoedd rhwng y ffactorau hyn, gan gynnwys:
  - oed
  - rhyw
  - rhywedd
  - ethnigrwydd
  - anabledd
  - sgiliau Cymraeg
  - y math o leoliad y maent yn gweithio ynddo (e.e. gofal dydd sesiynol, gofal dydd llawn, chwarae)
  - prif iaith gweithredu'r lleoliad y maent yn gweithio ynddo (Cymraeg, Saesneg, y ddwy iaith)
  - rôl swydd
  - lefelau cymhwyster
  - lefelau cyflog
  - dosbarthiad / lleoliad daearyddol (e.e. yn ôl awdurdod lleol, MALIC, dosbarthiad trefol / gwledig
  - nifer a math y swyddi gwag.

- **Nifer a natur lleoedd gofal plant a chwarae mewn lleoliadau cofrestredig**
  Gan gynnwys dadansoddiad o argaeledd lleoedd yn ôl nodweddion gwahanol y lleoliad:
  - math o leoliad
  - prif iaith gweithredu (Cymraeg, Saesneg, y ddwy iaith)
  - dosbarthiad / lleoliad daearyddol (e.e. yn ôl awdurdod lleol, MALIC, dosbarthiad trefol / gwledig)
  - oed y plentyn y darperir ar ei gyfer